# AROLYGIAD DAN ADRAN 10
# DEDDF AROLYGU YSGOLION 1996

**Ysgol Y Berwyn**
**Y Bala**
**Gwynedd**
**LL23 7RU**

**Rhif yr ysgol : 661 / 4033**

**Dyddiad Arolygiad : 4 – 16 Mawrth, 2002**

**GAN**
**Gareth Wyn Roberts**
**Arolygydd Cofrestredig : W019 / 17166**
**Dyddiad : 16 Mai 2002**
**dan rif contract ESTYN – T/23/01**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2002

Gellir atgynhyrchu'r Adroddiad hwn yn gyfan neu'n rhannol at ddibenion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bo pob rhan a ddyfynnir yn cael ei hatgynhyrchu air am air heb unrhyw newid a bod ei ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. Dan Ddeddf Adolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau yn rhad ac am ddim i gategorïau arbennig o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar

unrhyw un arall a wna gais am gopi o'r adroddiad.

## DULL ENWI  CWRICWLWM A CHYFNODAU ALLWEDDOL

Cychwynwyd dull enwi newydd i ddisgrifio cynnydd disgyblion trwy'r ysgol ym 1989.  Bwriedir i'r system hon o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol hyd at 18 oed hwyluso cyfathrebu ymysg ysgolion, cyrff llywodraethu, rhieni ac AALl  ac i bwysleisio pwysigrwydd dilyniant.

Mae'r term "Derbyn" (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn y disgyblion mewn ysgol gynradd (nid dosbarth meithrin) sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.  "Blwyddyn 1" (B1) a ddefnyddir i grŵp blwyddyn disgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen hyd B13 - y grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd:

| | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae cyfnod allweddol (CA) 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys B1 a B2; CA2 yn cynnwys B3 i B6; CA3 yn cynnwys B7 i B9 a CA4 yn cynnwys B10 a B11 (sef blwyddyn olaf addysg orfodol).

## DISGRIFIADAU GRADD

Defnyddir y raddfa graddio bum pwynt i gynrychioli'r prif farnau yn yr adroddiad fel a ganlyn:

1. Da iawn: llawer o nodweddion da, rhai yn arbennig o dda.
2. Da: nodweddion da a dim diffygion mawr.
3. Boddhaol: nodweddion da yn gorbwyso rhai diffygion.
4. Anfoddhaol: peth gwaith boddhaol ond diffygion mewn meysydd pwysig.
5. Gwael: llawer o ddiffygion.

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **1. CYD-DESTUN** | **5** |
| Yr Ysgol a'i Blaenoriaethau | 5 |
| **2. PRIF GANFYDDIADAU** | **6** |
| Prif Ganfyddiadau'r Adroddiad | 6 |
| **3. Y SAFONAU ADDYSGOL A GYFLAWNIR GAN DDISGYBLION** | **10** |
| 3.1. Y Safonau a Gyflawnir yn y Pynciau a'r Meysydd Dysgu | 10 |
| 3.2. Y Safonau a Gyflawnir yn y Medrau Allweddol ar draws y Cwricwlwm | 13 |
| **4. ETHOS YR YSGOL** | **14** |
| 4.1. Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y Disgyblion | 14 |
| 4.2. Ymddygiad ac Ymagweddau | 15 |
| 4.3. Presenoldeb | 15 |
| **5. ANSAWDD YR ADDYSG** | **16** |
| 5.1. Addysgu | 16 |
| 5.2. Asesu, Cofnodi a Chyflwyno Adroddiadau | 17 |
| 5.3. Cwricwlwm | 17 |
| 5.4. Cymorth, Cyfarwyddyd a Lles Disgyblion | 18 |
| 5.5. Darpariaeth ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) | 20 |
| 5.6. Partneraiethau gyda Rhieni a'r Gymuned, Ysgolion a Sefydliadau Eraill | 21 |
| 5.7. Partneriaethau gyda Diwydiant | 22 |
| **6. RHEOLAETH** | **23** |
| 6.1. Ansawdd Hunan-Arfarnu a Chynllunio ar gyfer Gwelliant | 23 |
| 6.2. Arweinyddiaeth ac Effeithlonrwydd | 23 |
| 6.3. Staffio, Adeiladau ac Ystafelloedd ac Adnoddau Dysgu | 24 |
| **7. PYNCIAU A MEYSYDD DYSGU** | **26** |
| Y Safonau a Gyflawnir gan y Disgyblion | 26 |
| Cymraeg | 26 |
| Saesneg | 27 |
| Mathemateg | 28 |
| Gwyddoniaeth | 29 |
| Cymraeg ail iaith | 30 |
| Dylunio a thechnoleg | 31 |
| Technoleg gwybodaeth | 32 |
| Hanes | 32 |
| Daearyddiaeth | 33 |
| Ieithoedd Tramor Modern | 34 |
| Celf | 35 |
| Cerddoriaeth | 35 |
| Addysg gorfforol | 36 |
| Addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol | 37 |
| Addysg bersonol a chymdeithasol | 38 |
| Astudiaethau busnes | 38 |
| Drama | 39 |
| Economeg y cartref | 40 |
| Eraill | 41 |
| **8. GWELLA'R YSGOL** | **43** |
| 8.1. Cynnydd Ers Yr Arolygiad Diwethaf | 43 |
| 8.2. Materion Allweddol i Weithredu Arnynt | 44 |
| **ATODIAD** | **45** |
| A. Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | 45 |
| B. Data a dangosyddion yr ysgol | 45 |
| C. Canlyniadau asesiadau'r CC ac arholiadau cyhoeddus | 46 |
| D. Sail dystiolaeth yr arolygiad | 49 |

# 1. CYD-DESTUN

## Yr ysgol a'i blaenoriaethau

Ysgol gyfun gymunedol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-18 a gynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol [AALl] Awdurdod Unedig [AU] Gwynedd yw Ysgol Y Berwyn, ac mae ynddi oddeutu 435 o ddisgyblion. Fe'i lleolir yn nhre fechan, wledig Y Bala, a gwasanaetha ddalgylch eang. Bu lleihad bach yn niferoedd y disgyblion eleni ond fel arall bu nifer y disgyblion yn gyson oddeutu 445 ers 1999.

Daw tri chwarter y disgyblion o'r ardaloedd gwledig sydd o gwmpas a daw tua chwarter ohonynt o'r dref a'r cyffiniau. Lleolir yr ysgol mewn ardal o dan anfantais economaidd. Yn ogystal, dywed yr ysgol bod chwarter y disgyblion yn freintiedig a thri chwarter ohonynt yn ddifreintiedig. Mae 14% o'r disgyblion wedi'u cofrestru i fod â'r hawl i brydau bwyd yn rhad ac am ddim.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Tystia'r ysgol bod ganddi lawer o ddisgyblion llai galluog ac ychydig o ddisgyblion galluog. Mae 18 o'r disgyblion (tua 4% o ddisgyblion B7-B11) ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig [AAA]. Yn ogystal, mae 28 o ddisgyblion (7%) ar gamau dau i dri o'r Côd Ymarfer ar gyfer AAA. Mae canran y rhai sydd ar ddatganiad yn uwch na'r canran cenedlaethol ac mae'r canran o ddisgyblion sydd ar gamau un i bedwar yn is na'r canran cenedlaethol. Datgymhwyswyd 4 disgybl o'r Cwricwlwm Cenedlaethol [CC]. Mae datganiadau 3 disgybl yn cynnwys yr angen i addasu'r CC ar eu cyfer.

Daw 40% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith y cartref a 60% o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Gall 80% o'r disgyblion siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf ac mae'r holl ddisgyblion yn dilyn gwersi Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 1996.

Y prif flaenoriaethau fel ysgol gyfan rhwng 2001 a 2004 yw:-

a) hyrwyddo'r defnydd o ddata canlyniadau a pharhau gyda threfn hunan-arfarnu'r ysgol;

b) hybu safonau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y pynciau;

c) hybu datblygiad proffesiynol a'r drefn hyfforddiant mewn swydd [HMS];

ch) cryfhau'r cysylltiadau cymunedol gan gynnwys cyswllt cwricwlaidd gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol, a chysylltiadau gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol;

d) datblygu rhaglen profiad gwaith i'r disgyblion;

dd) datblygu addysg bersonol a chymdeithasol [ABCh] o B7- B11;

e) datblygu gweithdrefn cynhwysiad cymdeithasol yr ysgol;

f) gweithredu strategaeth ar gyfer codi safonau yn CA3.

Y targedau meintiol a fabwysiadwyd gan yr ysgol yw:-

a) Bod ansawdd yr addysgu a safonau ar lawr y dosbarth yn foddhaol neu well mewn 95% o'r gwersi ac yn dda mewn o leiaf 50% ohonynt (sef y targedau cenedlaethol).

b) Targedau meintiol penodol yr ysgol 2001-2002 yw:

| Cyfnod Allweddol | Pwnc ayb | % ar lefel 5 neu fwy yn yr ysgol | Targed sirol(%) | Targed ar gyfer Cymru (%) |
|---|---|---|---|---|
| CA3 | Cymraeg | 65 | 70.8 | 70-80 |
| | Saesneg | 61 | 70.8 | 70-80 |
| | Mathemateg | 61 | 70 | 70-80 |
| | Gwyddoniaeth | 61 | 70.2 | 70-80 |
| | Dangosydd pynciau craidd | 53 | 51 | |
| CA4 | 5 pwnc TGAU yn ennill gradd A*- C | 60 | 54 | 54 |
| | 5 pwnc TGAU yn ennill gradd A*- G | 90 | 92 | 91 |
| | Dangosydd pynciau craidd | 40 | 46 | 50 |
| | % yn gadael yn ddi-gymhwyster | 0.0 | 1 | |
| | % absenoldebau anawdurdodedig | 0.0% | 0.1% | |

## 2. PRIF GANFYDDIADAU

### Prif ganfyddiadau'r adroddiad

### Rhagarweiniad

Mae hon yn ysgol sy'n datblygu. Mae'r ysgol yn gymuned Gymraeg a Chymreig, wâr, ofalgar a theuluol. Gydag un eithriad, mae safonau pynciol yn y dosbarth yn foddhaol neu'n dda ac mae canlyniadau profion ac asesiadau statudol CA3 ac arholiadau allanol B11 yn gyffredinol debyg i rai Cymru neu'r AALl, er bod canlyniadau B13 yn 2001 ychydig yn is na'r rhai cenedlaethol. Gydag eithriadau penodol, mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Mae'r cymorth a chyfarwyddyd ar eu cyfer hefyd yn dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda.

### Y safonau a gyflawna'r disgyblion yn eu pynciau.

Roedd safonau'n foddhaol neu well mewn 97% o'r gwersi a arsyllwyd yn ystod yr arolygiad. Roedd safonau'n dda iawn mewn 7% o'r gwersi. Roedd safonau'n dda mewn 54% ac yn foddhaol mewn 36% o wersi drwy'r ysgol. Roedd y safonau'n anfoddhaol 3% o'r gwersi. Mae'r ysgol yn cyrraedd

ei tharged mewnol ar gyfer safonau pynciol yn y dosbarth, sef bod safonau mewn 95% o'r gwersi yn foddhaol neu well ac yn dda mewn dros 50% ohonynt.

Dengys y tablau isod grynhoad o safonau pynciol fesul cyfnod allweddol.

| **Pwnc** | **Safonau CA3** | **Safonau CA4** | **Safonau B12 a B13** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg (mamiaith) | Da | Da | Da | |
| Cymraeg (ail iaith) | Da | Da | - | |
| Saesneg | Da | Boddhaol | Da | |
| Mathemateg | Da | Boddhaol | Da | |
| Gwyddoniaeth | Da | Boddhaol | Da | UG a Safon Uwch bywydeg da, cemeg boddhaol ffiseg da |
| Dylunio a thechnoleg | Da | Da | Da | |
| Technoleg gwybodaeth | Anfoddhaol | - | - | |
| Hanes | Boddhaol | Da | Boddhaol | |
| Daearyddiaeth | Boddhaol | Da | Boddhaol | |
| Ieithoedd Modern Tramor | Boddhaol | Boddhaol | Boddhaol | |
| Celf | Da | Da | Da | B12 da iawn, B13 da |
| Cerdd | Boddhaol | Da | Da iawn | |
| Addysg gorfforol | Boddhaol | Da | Da | |
| Addysg grefyddol | Da | Da | Da | |
| Drama | Da | Da | - | |
| ABCh | Da | Da | - | |

Pynciau eraill a astudir yn CA4 a B12 a B13.

| **Pwnc** | **CA4** | **B12 a B13** |
|---|---|---|
| Astudiaethau crefyddol | Da | Da |
| TGAU, Economeg y cartref | Da | |
| TGAU, Arlwyo | Da | |
| Gwleidyddiaeth | Da | |
| Amaethyddiaeth | Da iawn | |
| Adeiladwaith | Da | |
| CGCC Busnes, lefel 1 | Da | |
| CGCC Iechyd a gofal (uwch) | | Da |
| CGCC Busnes (canolradd) | | Da |
| Busnes (Safon Uwch) | | Da |
| U G Technoleg Gwybodaeth, B12 yn unig | | Da |

Mae'r safonau a gyflawna disgyblion ag AAA yn dda yn y pynciau craidd ac ym mwyafrif helaeth y pynciau eraill.

### Y safonau a gyflawna'r disgyblion yn y medrau allweddol

Er y bu peth datblygiad yn nhrefn yr ysgol o hybu'r medrau allweddol mewn iaith a rhifedd ar draws y cwricwlwm, anfoddhaol yw'r trefniadau presennol ar gyfer hybu a rheoli TGCh.

Mae safonau llafar yn y Gymraeg a'r Saesneg yn foddhaol ar draws y cwricwlwm. Mae medrau gwrando yn dda drwy'r ysgol yn y ddwy iaith. Mae safonau darllen a safonau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm yn dda drwy'r ysgol. Mae gallu'r disgyblion a'r myfyrwyr i drawsieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg a'r gwrthwyneb yn dda. Mae safonau rhifedd yn dda drwy'r ysgol tra fo safonau TGCh, er gwaethaf rhai enghreifftiau unigol boddhaol, yn anfoddhaol. Mae gallu'r disgyblion a myfyrwyr i ddatrys problemau yn foddhaol ac mae eu gallu i gydweithio yn dda. Boddhaol yw eu gallu i arfarnu eu gwaith eu hunain.

Mae'r ysgol hon yn llwyddo'n dda i hybu dwyieithrwydd y siaradwyr Cymraeg a nifer arwyddocaol o ddysgwyr. Mae nifer o ddysgwyr da yn dilyn rhai cyrsiau cyfrwng Cymraeg ac, ar ôl llwyddo yn yr arholiad TGAU yn y Gymraeg ail iaith yn B10, yn sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf yn B11.

### Canlyniadau arholiadau

Yn CA3 yn 2001, ym mhrofion statudol y CC, roedd canlyniadau yn y Gymraeg yn dda ac yn uwch na chyfartaledd yr AALl a Chymru. Roedd y canlyniadau ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth ychydig yn uwch na chyfartaledd yr AALl. Yn Saesneg, roedd y canlyniadau yn sylweddol is na chanlyniadau yr AALl a Chymru. Llwyddodd 53% o'r disgyblion i gyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] – sef lefel 5 neu uwch mewn cyfuniad o naill ai Cymraeg neu Saesneg a mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd yr AALl a Chymru.

Yn 2001, roedd perfformiad y merched yn sylweddol well na pherfformiad y bechgyn, gydag o leiaf 20 pwynt canran o wahaniaeth ym mhob pwnc ac oddeutu 30 pwynt canran o wahaniaeth yn yr ieithoedd.

Yn CA4, yn arholiadau TGAU ar gyfer 2001,[1] llwyddodd 54% o'r disgyblion i ennill 5 neu ragor o raddau A*- C. Mae'r canran hwn yn uwch na chanlyniadau Cymru ond yn is na chanlyniadau'r AALl. Mae'n dilyn y patrwm a welwyd dros y tair blynedd diwethaf, er, yn 1999 roedd canlyniadau'r ysgol ychydig yn uwch na chanlyniadau'r AALl. Mae'r 79% a enillodd 5 neu ragor o raddau A*- G yn yr arholiadau TGAU yn 2001 yn sylweddol is na chanlyniadau'r AALl a Chymru; yn 2000, roedd y canran yn sylweddol uwch na chanlyniadau'r AALl a Chymru.

Mewn Saesneg a mathemateg, roedd canran yr ymgeiswyr a enillodd raddau TGAU A*- C yn uwch na chanlyniadau'r AALl a Chymru, gyda chanlyniadau Cymraeg a gwyddoniaeth yn is na chanlyniadau'r AALl, a gwyddoniaeth hefyd yn is na Chymru. Roedd sgôr pwyntiau cyfartalog y disgyblion (sy'n seiliedig ar raddfeydd TGAU a enillwyd gan yr ymgeiswyr) hefyd yn sylweddol is na sgôr cyfartalog yr AALl ac ychydig yn is na sgôr cyfartalog Cymru.

Wrth ystyried yr holl ddangosyddion perfformiad arferol, sef canran y disgyblion sy'n ennill 5 gradd

[1] Seilir y dadansoddiadau uchod o ganlyniadau TGAU 2001 ar y mesurydd swyddogol, sef nifer y disgyblion yn yr ysgol ar ddiwrnod arbennig ym mis Ionawr. Noda'r ysgol, fodd bynnag, bod 7 disgybl (tua 11% o'r fintai) wedi gadael yr ysgol rhwng Ionawr a'r haf am nifer o resymau a heb sefyll yr arholiadau a bod hyn wedi effeithio ansawdd y canlyniadau.

A*- C neu 5 gradd A*- G yn yr arholiadau TGAU, y canran sy'n cyrraedd y DPC ar gyfer CA4 – sef yn ennill gradd A*-C mewn cyfuniad o naill ai Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth – a phan ystyrir canlyniadau yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, roedd perfformiad y merched ar ddiwedd CA4 yn 2001 yn well na pherfformiad y bechgyn.

Yn arholiadau Safon Uwch 2001, llwyddodd 58% o fyfyrwyr i ennill graddau A–C, sy'n sylweddol is na chyfartaledd yr AALl a Chymru, ac yn dangos lleihad graddol dros y tair blynedd diwethaf.

**Ansawdd yr addysgu**

Mae ansawdd yr addysgu yn un o gryfderau'r ysgol. Yn ystod yr arolygiad, roedd ansawdd yr addysgu'n foddhaol neu well mewn 97% o'r gwersi ac yn anfoddhaol mewn 3% ohonynt. Roedd ansawdd yr addysgu'n dda mewn 57% o'r gwersi, yn dda iawn mewn 8% ohonynt ac yn foddhaol yn 32% o'r gwersi. Nodweddir yr addysgu gan berthynas gadarnhaol gyda disgyblion a chynhaliaeth dda ar eu cyfer. Yn ogystal, cynllunnir gwersi'n dda a darperir yn dda ar gyfer disgyblion o alluoedd gwahanol.

**Arweinyddiaeth, effeithlonrwydd a hunan-arfarnu**

Boddhaol yw ansawdd arweinyddiaeth, effeithlonrwydd a hunan-arfarnu.

Arweinir yr ysgol gan bennaeth sy'n meddu ar weledigaeth glir o swyddogaeth yr ysgol yn y gymdeithas leol. Mae'n rhoi blaenoriaeth i hybu safonau drwy sicrhau arlwy gwricwlaidd sy'n hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol ac mae'n anelu i gynnig y ddarpariaeth orau ar gyfer pob disgybl. Rhennir y nod hwn gan aelodau eraill yr Uwch Dîm Rheoli [UDRh], gan weddill y staff a chan lywodraethwyr sy'n gefnogol iawn i'r ysgol. Fel canlyniad, llwyddir i greu ethos gwaith pwrpasol. Mae'r cynllun datblygu ysgol [CDY] o ansawdd boddhaol ac yn blaenoriaethu datblygiadau addysgol sy'n bwysig i'r ysgol dros gyfnod o dair blynedd.

Mae'r pennaeth wedi monitro bob athro'n gyson, ac mae'r monitro'n fuddiol, ond monitro staff unigol sy'n digwydd yn hytrach na monitro adrannau a safonau pynciol. Rhoddir canllawiau i'r staff o'r hyn sy'n ddisgwyliedig, ond nid yw'r cyswllt ffurfiol rhwng yr UDRh ac adrannau unigol yn ddigon cryf i sicrhau cysondeb yng ngweithrediad yr adrannau o flaenoriaethau'r ysgol na chwaith i sicrhau cymorth a chefnogaeth ddigonol i'w cyflawni.

Ar wahân i ddwy adran lle mae'r arweinyddiaeth yn anfoddhaol, amrywia ansawdd rheolaeth adrannau o'r boddhaol i'r da; yn aml, mae'n dda. Er bod ansawdd llawlyfr adrannau yn anwastad, ond yn foddhaol fel arfer, mae cynlluniau gwaith yr adrannau'n gyffredinol dda. Anghyson hefyd yw gweithrediad yr adrannau o bolisi asesu'r ysgol.

Rhoddwyd sylw i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu ar lefel ysgol gyfan ond nid yw gweithrediad y rhain yn gyson. Mae hunan-fonitro gan yr adrannau yn anwastad ac yn amrywio o'r da iawn i'r boddhaol; fel arfer, mae'n foddhaol. Arsylla'r adrannau wersi ac arfarnant ansawdd yr addysgu yn achlysurol, ond, hyd yn hyn, nid arfernir safonau gwaith y disgyblion na'r safonau yn y medrau allweddol mewn ffordd digon trefnus.

Rheolir adnoddau dynol ac ariannol yn effeithiol, a chynllunnir ar gyfer gwariant yn ofalus. Llwyddir i ddenu arian sylweddol ar gyfer prosiectau cwricwlaidd buddiol. Mae agweddau o'r ddarpariaeth gwricwlaidd, e.e. darpariaeth B12 a B13, yn ddrud iawn ond maent, yn ôl yr ysgol, yn bwysig i'w ffyniant. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth am arian.

**Ymateb i'r arolygiad diwethaf**

Mae hon yn ysgol sydd wedi symud ymlaen ers yr arolygiad diwethaf o dan arweiniad y pennaeth a chyda chydweithrediad ac ymdrechion y staff. Ymatebwyd yn llawn i rai materion. Mae'r

ddarpariaeth ar gyfer ABCh ac ar gyfer disgyblion ag AAA wedi gwella'n arwyddocaol. Mae safonau addysg gorfforol wedi gwella'n sylweddol. Ymatebwyd i'r her a osodwyd gan ddisgyblion dadrithiedig drwy ddarparu cyrsiau ymarferol eu natur ar eu cyfer. Mewn rhai achosion, boddhaol yw'r ymateb i'r materion allweddol. Darperir addysg grefyddol ar gyfer myfyrwyr B12 a B13 ond ni chynhaliwyd addoliad ar y cyd mewn rhai dosbarthiadau yn ystod wythnos yr arolygiad, ac mae hyn yn groes i ofynion statudol.

### Y cwricwlwm

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol. Fel rhan o'i hymateb i her cynhwysiad cymdeithasol, cynigir nifer dda o ddewisiadau o bynciau yn CA4, gan gynnwys nifer o bynciau ymarferol eu natur. Atgyfnerthir arlwy'r ysgol gan bynciau a addysgir mewn sefydliadau eraill. Mae cwricwlwm B12 a B13 yn gyfoethog ac amrywiol ond mae nifer y myfyrwyr sydd yn llawer o'r dosbarthiadau yn fach ac mae gwrthdrawiadau yn yr amserlen yn achosi problemau i fyfyrwyr unigol. Yn aml, mae'r athrawon yn rhoi amser addysgu ychwanegol o'u gwirfodd i gynnal y cwricwlwm. Cyfoethogir profiadau'r disgyblion gan ddarpariaeth allgyrsiol dda a chynigir cyfleoedd cyson iddynt gymryd rhan mewn chwaraeon cystadleuol.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion

Mae datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda a'u datblygiad ysbrydol yn foddhaol. Yn aml, gwna'r cynulliadau ar y cyd yn y neuadd gyfraniad da i ddatblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion er mai anwastad yw safon y cynulliadau yn y dosbarthiadau. Yn gyffredinol, maent yn foddhaol. Dengys y disgyblion barch tuag at ei gilydd, eu hathrawon ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n dda. Pan gânt gyfle, mae'r disgyblion a'r myfyrwyr yn barod i ysgwyddo cyfrifoldebau.

## 3. Y SAFONAU ADDYSGOL A GYFLAWNIR GAN DDISGYBLION

### 3.1 Y safonau a gyflawnir yn y pynciau a'r meysydd dysgu

Roedd safonau'n foddhaol neu well mewn 97% o'r gwersi a arsyllwyd yn ystod yr arolygiad. Roedd safonau'n dda iawn mewn 7% o'r gwersi. Roedd safonau'n dda mewn 54% ac yn foddhaol mewn 36% o wersi drwy'r ysgol. Roedd y safonau'n anfoddhaol mewn 3% o'r gwersi. Mae'r ysgol yn cyrraedd ei tharged mewnol ar gyfer safonau pynciol yn y dosbarth, sef bod safonau mewn 95% o'r gwersi yn foddhaol neu well ac yn dda mewn dros 50% ohonynt. Hwn hefyd yw'r targed cenedlaethol ar gyfer 2002.

Yn y Gymraeg, mae safonau'n dda drwy'r ysgol, ac yn y Gymraeg, ail iaith, mae'r safonau'n dda yn CA3 ac yn CA4. Yn CA3 a CA4 mae safonau'r gwaith llafar yn foddhaol ar y cyfan ac yn dda yn y setiau uchaf. Mae safonau darllen, gan gynnwys darllen er pleser ac ar goedd yn dda yn CA3 a CA4. Yn CA3 a CA4, mae'r disgyblion ar draws yr ystod gallu ysgrifennu mewn amrediad eang o ffurfiau. Er bod gwaith disgyblion canolig eu gallu yn CA4 yn fyrrach a mwy gwallus , pery'n ddiddorol o ran cynnwys. Yn B12 a B13 trafoda'r myfyrwyr ar lafar yn ddeallus a dangosant wybodaeth drylwyr o destunau gosod. Mae safon gwaith ysgrifenedig myfyrwyr B12 yn dda er yn brin o ddehongli a barn bersonol ar adegau. Yn B13, gall y myfyrwyr newid cywair yn ddeheuig.

Yn Saesneg, mae safonau CA3 a B12 a B13 yn dda; yn CA4 maent yn foddhaol. Ar draws yr ysgol, mae cyflwyniad gwaith yn gyson o safon uchel. Yn CA3, mae safonau llafar yn foddhaol drwyddi draw, darllen yn gyson dda a gwaith ysgrifenedig hefyd yn dda, gyda'r gwaith gorau yn B7 a B8. Mae'r mwyaf galluog yn cyrraedd safonau da iawn. Yn CA4, mae safonau gwaith llafar yn gyffredinol foddhaol, darllen yn gyson dda a gwaith ysgrifenedig yn foddhaol drwyddi draw. Mae'r mwyaf galluog a'r lleiaf galluog yn cynhyrchu darnau ysgrifennu da yn rheolaidd. Yn B12 a B13, mae safonau ysgrifennu a darllen yn dda tra bo safonau llafar yn foddhaol.

Mewn mathemateg, mae'r safonau yn dda yn CA3, yn foddhaol yn CA4, ac yn dda yn B12 a B13. Mae y safonau cyflawniad yn gyson ar draws y targedau cyrhaeddiad rhif, algebra, siâp, gofod a mesur, yn ogystal â thrin data. Mae gallu y disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso mathemateg yn amrywio o'r boddhaol i'r da iawn. Yn CA4, mae'r disgyblion o allu uchel yn gwneud cynnydd da, ond boddhaol yw safonau cyflawniad y disgyblion o allu canolig. Mae safonau cyflawniad disgyblion ag AAA yn dda. Mae gan fyfyrwyr B12 a B13 ddealltwriaeth dda o egwyddorion mathemategol, a gallant ddatrys problemau drwy ymresymu rhesymegol.

Mae safonau gwyddoniaeth yn dda yn CA3 ac yn foddhaol yn CA4; maent yn dda mewn bywydeg a ffiseg yn B12 a B13 ac yn foddhaol mewn cemeg. Mae sgiliau arbrofol ac ymchwiliol yn gyffredinol dda yn CA3 a defnyddir y sgiliau hyn i gynhyrchu gwaith cwrs o ansawdd dda yn CA4. Yn B7,B8 a B9 mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o "brosesau bywyd a phethau byw" a 'phrosesau ffisegol'. Mae eu dealltwriaeth o "ddefnyddiau a'u priodweddau" yn llai datblygedig. Yn CA4, mae safonau cyflawniad mewn ffiseg yn dda ar draws yr ystod gallu. Cyflawnir safonau da gan y disgyblion galluocaf a llai galluog ond mae nifer arwyddocaol o ddisgyblion canolig eu gallu yn tangyflawni oherwydd diffyg ymroddiad i'w gwaith. Mewn cemeg, mae diffyg hyder gan llawer o'r disgyblion wrth iddynt drafod eu gwaith a chymhwyso eu gwybodaeth i sefyllfaoedd newydd; fel canlyniad boddhaol yw'r safonau..

Mae safonau dylunio a thechnoleg yn  dda drwy'r ysgol. Drwy'r ysgol, mae'r disgyblion a myfyrwyr yn cael mwynhad, yn gweithio gyda diddordeb ac yn cymryd cyfrifioldeb am eu gwaith eu hunain. Maent yn cyflawni prosesau ymarferol yn dda ac yn cynhyrchu eitemau gorffenedig safonol a defnyddiol. Medda'r disgyblion a myfyrwyr wybodaeth a dealltwriaeth dda am ddeunyddiau a phrosesau, a llwyddiant i gymhwyso hyn i'w gwaith dylunio a gwneud.

Mewn TG, mae safonau'n dda yn B7, lle addysgir y pwnc yn ffurfiol, ond yn anfoddhaol erbyn diwedd y cyfnod allweddol. Mae gallu'r disgyblion i gyflwyno gwybodaeth yn dda ond anfoddhaol yw eu gallu i fodelu gyda thaenlen. Elfennol yw eu gallu i drin data ac elfennol yw eu gwybodaeth am effeithiau cyfrifiaduron yn y gymdeithas.

Mewn Ffrangeg, mae safonau'n foddhaol drwy'r ysgol. Boddhaol hefyd yw safonau gwaith llafar, gwrando, darllen yn CA3, CA4, B12 a B13. Mae safonau ysgrifennu'n foddhaol heblaw am B11, lle mae'n dda. Siarada ac ysgrifenna'r disgyblion yn briodol ond amherir ar y safonau gorau gan wallau gramadegol.

Mewn hanes, mae safonau'n foddhaol yn CA3, yn dda yn CA4 ac yn foddhaol yn B12 a B13. Roedd canlyniadau UG yn Ionawr 2002 yn dda. Yn CA3, mae amgyffred y disgyblion o dystiolaeth hanesyddol yn dda ond nid yw'r gwaith dehongli gystal. Mae gan ganran dda o ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda ond maent yn llai sicr o'r rhesymau am ddehongliadau gwahanol o'r gorffennol. Yn B12 a B13, mae gan y myfyrwyr wybodaeth amlinellol boddhaol ond cânt beth anhawster wrth arfarnu a dadansoddi amrywiaeth o ffynonellau ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Mewn daearyddiaeth, mae safonau'n foddhaol yn CA3, yn dda yn CA4 ac yn foddhaol yn B12 a B13. Yn CA3, mae safonau'r disgyblion galluocaf yn aml yn dda o ran cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau daearyddol ond nid yw'r disgyblion llai galluog yn gallu cymhwyso'r wybodaeth i sefyllfaoedd newydd. Yn CA4, gall y disgyblion grynhoi barn a dod i gasgliadau synhwyrol ac mae'r llai galluog yn dangos cynnydd pan seilir y gwaith ar leoedd go iawn. Yn B12 , defnyddia'r myfyrwyr ystod o ffynonellau a gallant grynhoi'n dda. Yn B13, nid yw'r myfyrwyr mor fodlon casglu gwybodaeth nac i gyfrannu ar lafar er bod ganddynt ddealltwriaeth o ymholiad daearyddol.

Mewn celf, mae'r safonau'n da drwy'r ysgol; mae safonau B12 yn dda iawn. Yn CA3, cynhyrcha'r disgyblion waith o gymhlethdod cynyddol a gwnânt gynnydd da yn eu defnydd o liw, tôn, patrwm a siâp. Yn CA4, noda'r disgyblion ddelweddu o arsyllu ac o'u dychymyg ond ni wnânt ddefnydd digonol o TGC. Yn B12, cyflawna'r myfyrwyr safonau da iawn gan ddefnyddio ystod o gyfryngau

priodol. Yn B13, dengys y myfyrwyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o waith arlunwyr eraill i ysbrydoli eu gwaith ymchwil.

Mewn cerddoriaeth, mae safonau mewn perfformio, cyfansoddi a gwerthuso yn CA3 yn foddhaol. Yn CA4, mae safonau'n dda. Perfformia'r disgyblion yn hyderus. Mae rhai cyfansoddiadau'n dangos dychymyg a gall disgyblion ganfod nodweddion mewn amrediad o gerddoriaeth o wahanol arddulliau. Yn B12 a B13, mae safonau'n dda iawn. Mae'r myfyrwyr yn berfformwyr medrus, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o dechnegau cyfansoddi ac mae eu medrau gwerthuso'n aeddfed.

Mewn addysg gorfforol, mae safonau'n foddhaol yn CA3 ac yn dda yn CA4 ac yn B12 a B13. Mae disgyblion yn datblygu'r gallu i gynllunio, perfformio a gwerthuso gwaith. Datblygant wybodaeth, dealltwriaeth a medrau corfforol drwy ystod o weithgareddau gymnasteg a chwaraeon. Yn B12 a B13, mae gan fyfyrwyr ddealltwriaeth dda o egwyddorion iechyd a ffitrwydd ac o faterion cyfredol a hanesyddol mewn chwaraeon a chymdeithas.

Mewn addysg grefyddol mae safonau'n dda drwy'r ysgol. Yn CA3, mae gan y disgyblion ar draws yr ystod gallu wybodaeth a dealltwriaeth dda o'u gwaith; mynegant farn yn eglur. Yn CA4, mae'r disgyblion yn ymateb yn ystyriol i faterion crefyddol. Yn B12 a B13, manteisia'r myfyrwyr yn dda ar gyfleoedd iddynt ddatblygu medrau ymchwilio a chyfathrebu. Mae eu cyflwyniadau llafar o safon dda.

Mewn ABCh, mae safonau'n dda yn CA3 a CA4. Parcha'r disgyblion farn eraill, dônt i adnabod eu hunain yn well ac mae ganddynt wybodaeth dda am yrfaoedd ac addysg iechyd.

**Canlyniadau arholiadau**

Yn CA3 yn 2001, ym mhrofion statudol y CC, roedd canlyniadau yn y Gymraeg yn dda ac yn uwch na chyfartaledd yr AALl a Chymru. Roedd y canlyniadau ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth ychydig yn uwch na chyfartaledd yr AALl. Yn Saesneg, roedd y canlyniadau yn sylweddol is na chanlyniadau yr AALl a Chymru. Llwyddodd 53% o'r disgyblion i gyrraedd y DPC – sef lefel 5 neu uwch mewn cyfuniad o naill ai Cymraeg neu Saesneg a mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd yr AALl a Chymru.

Yn 2001, roedd perfformiad y merched yn sylweddol well na pherfformiad y bechgyn, gydag o leiaf 20 pwynt canran o wahaniaeth ym mhob pwnc ac oddeutu 30 pwynt canran o wahaniaeth yn yr ieithoedd.

Yn CA4, yn arholiadau TGAU ar gyfer 2001, llwyddodd 54% o'r disgyblion i ennill 5 neu ragor o raddau A*- C. Mae'r ganran hwn yn uwch na chanlyniadau Cymru ac yn is na chanlyniadau'r AALl. Mae'n dilyn y patrwm a welwyd dros y tair blynedd diwethaf, er, yn 1999 bu canlyniadau'r ysgol ychydig yn uwch na chanlyniadau'r AALl. Mae'r ganran, sef 79%, a enillodd 5 neu ragor o raddau A*- G yn yr arholiadau TGAU yn 2001 yn sylweddol is na chanlyniadau'r AALl a Chymru ; yn 2000 roedd y ganran yn sylweddol uwch na chanlyniadau'r AALl a Chymru.

Mewn Saesneg a mathemateg, roedd canran yr ymgeiswyr a enillodd raddau TGAU A*- C yn uwch na chanlyniadau'r AALl a Chymru, gyda chanlyniadau Cymraeg a gwyddoniaeth yn is na chanlyniadau'r AALl, a gwyddoniaeth hefyd yn is na Chymru. Roedd sgôr pwyntiau cyfartalog y disgyblion (sy'n seiliedig ar raddfeydd TGAU a enillwyd gan yr ymgeiswyr) hefyd yn sylweddol is na sgôr cyfartalog yr AALl ac ychydig yn is na sgôr cyfartalog Cymru.

Wrth ystyried yr holl ddangosyddion perfformiad arferol, sef canran y disgyblion sy'n ennill 5 gradd A*- C neu 5 gradd A*- G yn yr arholiadau TGAU, y canran sy'n cyrraedd y DPC ar gyfer CA4 – sef

yn ennill gradd A*- C mewn cyfuniad o naill ai Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth – a phan ystyrir canlyniadau yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, roedd perfformiad y merched ar ddiwedd CA4 yn 2001 yn well na pherfformiad y bechgyn.

Yn arholiadau Safon Uwch 2001, llwyddodd 58% o fyfyrwyr ennill graddau A–C, sydd yn sylweddol is na chyfartaledd yr AALl a Chymru, ac yn dangos lleihad graddol dros y tair blynedd diwethaf.

### 3.2 Safonau yn y medrau allweddol

Er y bu peth datblygiad yn nhrefn yr ysgol o hybu'r medrau allweddol o iaith a rhifedd ar draws y cwricwlwm, anfoddhaol yw'r trefniadau presennol ar gyfer hybu a rheoli TGCh.

Mae safonau llafar yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm yn foddhaol. Yn aml, gall y galluocaf siarad yn estynedig gan ddisgrifio a chyfiawnhau safbwynt ond mae'r disgyblion eraill yn ddihyder wrth siarad ac yn cael anhawster i fynegi syniadau'n eglur. Gallant ddisgrifio, egluro a chymharu, ond nid ydynt mor barod i holi a chwestiynu er mwyn dod i gasgliadau. Mae medrau gwrando yn dda drwy'r ysgol yn y ddwy iaith, er y gall yr awydd i wrando leihau os yw athro neu gyd-ddisgybl yn methu cynnal sylw'r gwrandäwr. Mae safonau darllen yn dda yn y ddwy iaith drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion yn darllen-ar-goedd yn dda, gyda chywirdeb a mynegiant. Darllenant lyfrau a thestunau eraill, gan gynnwys darnau o'r Rhyngrwyd ar adegau, yn fedrus i gywain gwybodaeth ac i ymchwilio. Yn ogystal, mae safonau darllen er pleser yn dda yn y ddwy iaith. Mae nifer fechan, ond arwyddocaol, o ddysgwyr Cymraeg sydd wedi meistroli'r iaith hefyd yn mwynhau darllen yn y Gymraeg. Mae safonau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn draws gwricwlaidd yn dda drwy'r ysgol. Ysgrifenna'r disgyblion yn glir, rhugl a chywir, er nad ydynt yn aml yn defnyddio'r broses o ysgrifennu fel modd i wella dealltwriaeth. Mae gallu'r disgyblion a'r myfyrwyr i drawsieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, neu'r gwrthwyneb, yn dda.

Mae'r ysgol yn llwyddo'n arwyddocaol i hybu dwyieithrwydd y siaradwyr Cymraeg a nifer arwyddocaol o ddysgwyr. Mae nifer o ddysgwyr da yn dilyn rhai cyrsiau cyfrwng Cymraeg ac, ar ôl llwyddo yn yr arholiad TGAU mewn Cymraeg ail iaith yn B10, yn sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf yn B11.

Mae safonau mewn TGCh yn anfoddhaol drwy'r ysgol. Serch hynny, gwna'r disgyblion waith da wrth gyfleu gwybodaeth. Cynhyrchant gyhoeddiadau amrywiol sy'n cynnwys clipluniau, lluniau, animeiddiadau, sain a thestun wedi eu mewnfudo, a gallant eu cyflwyno yn aml yn gelfydd i gynulleidfa. Mae enghreifftiau unigol o waith da iawn yn B7 a hefyd mewn nifer dda o bynciau gan gynnwys y Gymraeg yn ystod B8 a B9, mewn gwaith cwrs mewn dylunio a thechnoleg tecstilau) ac mewn prosiectau unigolion ar gyfer TGAU ac ar gyfer Safon Uwch a CGCC.

Mae safon modelu gyda thaenlen yn anfoddhaol. Gall y disgyblion lenwi taenlenni a'u defnyddio i gofnodi data rhifol mewn pynciau megis mathemateg, gwyddoniaeth a busnes, ac i lunio graffiau, ond prin iawn yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn defnyddio taenlen i fodelu a rhagfynegi gan lunio fformwlâu cymhleth yn gywir. Nid ydynt yn deall yr egwyddorion a chysyniadau y tu ôl i'r broses modelu gyda thaenlen. Nid yw'r disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron i gyfansoddi mewn cerdd.

Gall y disgyblion fewnoli data i ddata-bas, gan gynnwys data-bas masnachol, a'i holi gan ddangos yr wybodaeth ar ffurf graff. Er hynny, elfennol yw ansawdd y gwaith holi a dadansoddi cyfrifiadurol o ddata. Boddhaol yw'r defnydd o synwyryddion i logio data mewn gwyddoniaeth.

Mae disgyblion unigol, a grwpiau penodol o ddisgyblion, yn defnyddio'r Rhyngrwyd ar gyfer gyrru a derbyn e-bost a hefyd i gasglu gwybodaeth, ond, er y digwydd hyn mewn nifer o bynciau, elfennol yw gallu'r disgyblion i ddethol yr wybodaeth angenrheidiol.

Mae safonau gwaith CAD/CAM (sef dylunio a gwneud gyda chymorth y cyfrifiadur) yn gyffredinol dda. Rheolir dyfeisiadau, megis goleuadau traffig, gyda chyfrifiaduron yn dda. Yn B12 a B13, mae'r gwaith TGCh a gyflawna'r myfyrwyr sy'n dilyn y cyrsiau CGCC hefyd yn dda; fel arall, digon elfennol yw safon gwaith TGCh trwch myfyrwyr B12 a B13.

Mae safonau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn dda. Mae gallu'r disgyblion mewn medrau rhif yn hyrwyddo eu gwaith mewn nifer o bynciau, yn enwedig lle mae defnydd o rif yn angenrheidiol. Yn y pynciau lle mae mesur a chyfrifo yn holl bwysig, mae'r disgyblion yn mesur yn gywir gan ddefnyddio unedau priodol. Defnyddiant y gyfrifiannell yn addas ac yn effeithiol. Mae'r gwaith ystadegol yn dda, gyda disgyblion mewn nifer o bynciau yn ymdrin â data drwy ddefnyddio amrywiaeth o ffurfiau i gyflwyno ac i ddehongli ystadegau. Ar adegau, nid yw'r dewis o graff yn briodol.

Gydag eithriadau penodol, boddhaol yw safonau datrys problemau'r disgyblion. I raddau, adlewyrcha hyn yr arddull addysgu lle nid anogir disgyblion i fod yn annibynnol.

Boddhaol yw gallu disgyblion i gydweithio. Mae enghreifftiau da mewn pynciau megis drama, ond yn aml mae disgyblion yn gweithio'n unigol mewn grŵp ar dasg yn hytrach na chydweithio gydag eraill.

Boddhaol yw gallu'r disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain a boddhaol yw eu gallu i wella eu hastudio eu hunain.

## 4. ETHOS YR YSGOL

### 4.1 Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion

Mae datblygiad moesol, cymdeithasol, a diwylliannol y disgyblion yn dda, tra fo'u datblygiad ysbrydol yn foddhaol. Llwydda'r ysgol i greu cymuned groesawus a gofalgar sy'n adlewyrchu diwylliannau'r gymuned leol.

Datblygir ymwybyddiaeth ysbrydol y disgyblion drwy waith mewn addysg grefyddol a chydaddoli. Mae'r gwasanaethau yn y neuadd yn drefnus ac yn cynnwys cyflwyniad addas gan aelod o'r staff neu'r disgyblion. Defnyddir yr amser ar ddiwedd y cydaddoli yn y neuadd yn effeithiol i ddathlu llwyddiant disgyblion mewn ystod o weithgareddau ysgol ac allgyrsiol. Yn achlysurol, gwneir defnydd o gerddoriaeth i gyfoethogi'r achlysur ac fel arfer ceir gweddi neu gyfle i fyfyrio. Paratowyd canllawiau priodol ar gyfer y cydaddoli a gynhelir yn y dosbarthiadau. Nodweddir y cydaddoli gorau yn y rhain gan gyfraniad cadarnhaol yr athrawon a chyfraniad ystyrlon y disgyblion. Mewn achosion eraill, mecanyddol yw'r cyflwyniad ac nid oes amser i'r disgyblion adfyfyrio. Yn ogystal, mae achosion lle na chynhelir addoliad ar y cyd ac mae hyn yn groes i'r gofynion statudol.

Codir materion moesol yn gyson yn ystod cyfnodau o addoliad ar y cyd, yn ABCh, mewn gwersi addysg grefyddol a phynciau eraill. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn ymateb yn synhwyrol wrth drafod materion megis hiliaeth a hawliau dynol, ac yn dangos parch at bobl sydd â'u traddodiadau a'u credoau yn wahanol iddynt hwy. Maent yn mynegi eu barn ar faterion personol, cymdeithasol ac amgylcheddol yn sensitif ond gyda gonestrwydd. Mae pwyslais yr ysgol ar feithrin parch, ystyried eraill ac ymddwyn yn gyfrifol yn amlwg yn ei bywyd a'i threfn feunyddiol.

Amlyga'r disgyblion ofal am rai llai ffodus na hwy eu hunain yn y gefnogaeth a roddant i ystod eang o elusennau a gweithgareddau codi arian. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi Operation Christmas Child, Plant mewn Angen ac achosion da lleol a ddewisir gan y disgyblion.

Yn gymdeithasol, mae'r disgyblion yn ymateb yn dda i'w gilydd, i'r staff ac i ymwelwyr. Yn eu gwersi, maent yn gweithio yn effeithiol mewn parau, grwpiau a gweithgareddau chwarae rôl. Mae mwyafrif helaeth o'r bechgyn llawn mor barod â'r merched i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Hyrwyddir ymwybyddiaeth gymdeithasol y disgyblion trwy nifer dda o weithgareddau yn yr ysgol, yn y gymuned leol ac yn ehangach. Maent yn ymateb yn dda i gyfleoedd i ymarfer cyfrifoldeb drwy gynrychioli'r ysgol mewn amryw o weithgareddau, drwy aelodaeth o Gyngor yr Ysgol a thrwy brofiad gwaith. Serch hynny, cymharol brin yw'r cyfrifoldebau a ddisgwylir i fyfyrwyr yn B12 a B13 eu hysgwyddo. Mae gweithgareddau allgyrsiol, clybiau ysgol ac ymweliadau â gwledydd tramor i gyd yn cyfrannu i ehangu gorwelion cymdeithasol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal â chysylltiadau diwylliannol Cymraeg cryf ac adlewyrchir hyn yng nghwricwlwm ac ethos yr ysgol. Mae'n gwneud cyfraniad da iawn i weithgareddau diwylliannol y gymuned ynghyd ag i addysg ddiwylliannol y disgyblion yn gyffredinol. Elwa'r disgyblion o nifer dda o ddigwyddiadau allgyrsiol gan gynnwys gweithgareddau'r Urdd, ymweliadau i theatrau, adeiladau crefyddol, amgueddfeydd, a chyngherddau, yn lleol a phellach. Datblygir ymwybyddiaeth Ewropeaidd a rhyngwladol disgyblion drwy agweddau penodol o'r cwricwlwm, cysylltiadau hir sefydledig ag ysgol yn Ffrainc, a chyfleoedd i ymweld â gwahanol wledydd y tu allan i Gymru.

## 4.2 Ymddygiad ac ymagweddau

Mae ansawdd cyffredinol ymddygiad ac ymagweddiad y disgyblion yn dda.

Mewn gwersi, ac mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol o amgylch yr ysgol, mae ymddygiad mwyafrif llethol y disgyblion yn dda. Maent yn dangos parch tuag at ei gilydd, eu hathrawon, staff eraill ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn siriol a chwrtais. At ei gilydd, maent yn ymagweddu'n ddisgybledig mewn sefyllfaoedd ymarferol ond mae achosion prin o ddisgyblion yn esgeuluso rheolau sylfaenol diogelwch mewn labordai, megis peidio â gwisgo sbectol diogelwch a defnyddio llosgydd Bunsen heb glymu gwallt hir.

Yn gyffredinol, mae gan y disgyblion ddiddordeb yn eu gwaith; maent yn awyddus i gymryd rhan ac maent yn canolbwyntio'n dda. Mewn ambell i gwrs academaidd, mae diffyg cymhelliant carfan fechan o ddisgyblion canolig ac is eu gallu yn CA3 a CA4 yn cael effaith andwyol ar eu safonau. Mewn cyrsiau ymarferol eu natur yn CA4, mae'r un garfan gallu yn ymateb yn dda.

Mae polisïau'r ysgol ar ddisgyblaeth a bwlio yn gyfoes ac yn ymarferol. Rhoddir pwyslais ar wobrwyo yn ogystal â chosbi. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r drefn gredydau ond mae ei gweithrediad yn amrywio o adran i adran. Yn ystod y cyfnod arolygu, ni welwyd unrhyw achos o fwlio, rhywiaeth, hiliaeth nac anffafriaeth.

Cafodd un disgybl ei wahardd yn barhaol yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Yn yr un cyfnod, cafodd saith disgybl eu gwahardd dros dro. Dilynwyd rheolau'r ysgol a chanllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyson a phriodol ar bob achlysur.

Gwneir defnydd effeithiol o wahanol asiantaethau i gynnig cymorth ac arweiniad i nifer fechan o ddisgyblion sy'n cael anhawster i dderbyn arferion a gwerthoedd yr ysgol.

## 4.3 Presenoldeb

Mae presenoldeb y disgyblion yn foddhaol.

Dros y tri thymor cyn yr arolygiad, roedd cyfradd presenoldeb disgyblion o oedran ysgol statudol yn 92.8%. Roedd canran yr absenoldebau oedd heb eu hawdurdodi yn 0.3%. Mae gan yr ysgol darged i leihau'r canran isel hwn ymhellach. Oherwydd cyfnod o salwch yn nhymor y gwanwyn 2001, roedd presenoldeb disgyblion B10 ychydig islaw 90%. Yn ystod hanner cyntaf y tymor presennol, roedd cyfradd presenoldeb disgyblion o oedran ysgol statudol yn 91.4%. Er hynny, roedd presenoldeb B10 a B11 eto ychydig yn is na 90%.

Sefydlwyd trefn gyfrifiadurol o gofnodi data presenoldeb ond nid oes gan yr ysgol yr adnoddau dynol i wneud llawn defnydd o'r gyfundrefn. Mae’r tiwtoriaid dosbarth yn dilyn trefn briodol wrth gofnodi presenoldeb ac mae’r rhieni yn ymwybodol o ddisgwyliadau’r ysgol o safbwynt presenoldeb.

Dilynodd yr ysgol yr arfer o gofnodi disgyblion B11 yn bresennol pan dylid bod wedi eu cofnodi yn absennol gydag awdurdod dros gyfnodau astudio yn nhymor yr haf 2001. Mae'r ysgol bellach yn ymwybodol o ofynion Cylchlythyr 3/99 y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r swyddog lles addysg yn cyfarfod pennaeth B11, sy’n gyfrifol am faterion lles gan gynnwys monitro presenoldeb drwy’r ysgol, yn wythnosol i drafod disgyblion sy'n achos pryder. Adolygir achosion unigol ac addasir y dull o weithredu yn ôl yr angen.

Mae'r ysgol yn disgwyl i bresenoldeb a phrydlondeb myfyrwyr B12 a B13 fod yn esiampl i weddill yr ysgol. Er hynny, mae'r tiwtoriaid yn caniatáu peth hyblygrwydd pan fo gan fyfyrwyr wersi rhydd. Atgoffir hwy yn rheolaidd bod yn ofynnol iddynt gofnodi eu mynd a dod gyda derbynfa'r ysgol.

Mae presenoldeb disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn cael ei gofnodi yn nerbynfa'r ysgol. Mae prydlondeb ar ddechrau’r dydd a phrydlondeb i wersi yn gyffredinol dda.

## 5. ANSAWDD YR ADDYSG

### 5.1 Ansawdd yr addysgu

Mae ansawdd yr addysgu yn un o gryfderau’r ysgol. Yn ystod yr arolygiad, roedd ansawdd yr addysgu'n foddhaol neu well mewn 97% o’r gwersi ac yn anfoddhaol mewn 3% ohonynt. Roedd ansawdd yr addysgu’n dda mewn 57% o’r gwersi, yn dda iawn mewn 8% ac yn foddhaol yn 32% o’r gwersi.

Nid oedd gwahaniaeth sylweddol yn ansawdd yr addysgu rhwng y cyfnodau allweddol, er y gwelwyd y nifer mwyaf o wersi lle’r oedd addysgu da iawn, a hefyd addysgu anfoddhaol, yn CA4. Gwelwyd rhai gwersi da iawn mewn sawl pwnc ac roedd ansawdd yr addysgu mewn amaethyddiaeth yn dda iawn ar bron pob achlysur. Roedd yr addysgu yn foddhaol ar y cyfan mewn tua thraean o’r pynciau, ac yn dda yn y gweddill. Roedd hefyd gwersi unigol mewn nifer cyfyngedig o bynciau lle’r oedd ansawdd yr addysgu’n anfoddhaol.

Mae’r addysgu’n manteisio ar wybodaeth a dealltwriaeth bynciol dda mwyafrif helaeth yr athrawon. Hyrwyddir safonau cyflawniad rhai disgyblion gan gyfraniad da y cymorthyddion dosbarth. Mae ansawdd cynllunio gwersi o leiaf yn foddhaol ym mron bob pwnc, ac yn dda yn y rhan fwyaf ohonynt.

Lle mae'r addysgu'n dda, mae cyflymder da i'r wers a defnyddir amrywiaeth da o strategau dysgu. Mae i'r gwersi nodau a dibenion clir ac sy'n cael eu cyfleu i'r disgyblion. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ond cyraeddadwy ar gyfer pob disgybl.

Lle mae'r addysgu'n dda iawn, yn ogystal â'r nodweddion da a nodwyd uchod, mae'r athrawon yn herio'r disgyblion i feddwl yn feirniadol, i fod yn greadigol, ac i ddefnyddio eu dychymyg. Mae cwestiynau treiddgar yn ymestyn y disgyblion ac yn meithrin eu gallu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Yn y gwersi boddhaol, a'r ychydig anfoddhaol, nid yw'r disgyblion yn cael eu herio'n ddigonol. Mae tuedd i'r athro siarad yn ormodol ac nid yw'r wers yn datblygu ar gyflymder addas. Ar adegau, mae'r disgwyliadau yn isel a gor-ddibyniaeth ar dasgau cyffredin nad ydynt yn cynnal diddordeb y disgyblion nac yn ymestyn eu dealltwriaeth.

## 5.2 Asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau

Mae ansawdd asesu yn foddhaol; mae ansawdd cofnodi ac adrodd i rieni yn dda.

Mae gan yr ysgol bolisi asesu cynhwysfawr sy'n cynnwys canllawiau sylfaenol i adrannau. Gyda rhai eithriadau, mae adrannau yn gweithredu'r polisi hwn yn gyson.

Asesir gwaith y disgyblion yn gyson drwy ddefnyddio tasgau asesu gan gynnwys profion ac arholiadau. Cymedrolir y rhain drwy ddefnyddio Disgrifiadau Lefel y CC yn CA3 a meini prawf pynciol TGAU yn CA4. Mae cywirdeb a chysondeb asesu yn dda drwodd a thro. Llunnir portffolios o waith gan rai adrannau ond ar hyn o bryd nid oes sylwadau ysgrifenedig ar y gwaith a gynhwysir ac felly ni fanteisir yn llawn arnynt i safoni a chymedroli asesiadau. Mewn ychydig yn llai na hanner yr adrannau, defnyddir hunan-asesiad y disgyblion yn llwyddiannus fel modd o'u gwneud yn ymwybodol o'r gweithredu sydd ei angen i wella eu perfformiad.

Mae ansawdd marcio yn amrywio ar draws adrannau. Mewn nifer arwyddocaol o adrannau, mae marcio'n fanwl ac yn cynnwys sylwadau adeiladol ar sut y gall disgyblion wella safon eu gwaith. Mewn rhai pynciau fodd bynnag, ni ddatblygwyd marcio diagnostig i'r un graddau. Ni weithredir yn gyson ganllawiau'r ysgol ar farcio iaith.

Bob tymor, cofnodir gwybodaeth ar ymdrechion a chyflawniadau'r disgyblion yn y tasgau asesu gan ddefnyddio trefn gyfrifiadurol. Defnyddir y taflenni ar gyfer pob disgybl gan diwtoriaid dosbarth i adnabod disgyblion sy'n tangyflawni oherwydd diffyg ymdrech ac i ganmol y disgyblion sy'n llwyddo drwy ymroddiad da i'w gwaith. Mae tiwtoriaid dosbarth yn trafod cynnydd gyda'r disgyblion ac yn cytuno ar dargedau sy'n cael eu cofnodi yn eu ffeiliau ABCh.

Mewn sawl achos, mae'r targedau yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn dynodi'r hyn sydd rhaid ei wneud i wella perfformiad. Nid yw adrannau pwnc yn derbyn gwybodaeth am berfformiad unigolion ar draws y pynciau ond mae penaethiaid adrannau yn dadansoddi data asesu o fewn eu pynciau i gadw golwg ar gynnydd y disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn gwneud dadansoddiad manwl o ganlyniadau arholiadau a phrofion allanol. Defnyddir y dadansoddiadau hyn fel sail i drafodaeth rhwng adrannau a'r prifathro, ond ar hyn o bryd ni chânt eu defnyddio i gytuno ar dargedau unigol i bob disgybl. Mae trefn yr ysgol ar gyfer gosod targedau, seiliedig ar berfformiad blaenorol y disgybl, yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Maent o ansawdd da ac mae rhieni yn gwerthfawrogi eu natur bersonol. Rhoddant ddarlun o gynnydd academaidd y

disgyblion ym mhob pwnc ond mae'r cyngor ar ddulliau o wella cyflawniad yn aml yn rhy gyffredinol. Yn ogystal â'r adroddiad llawn, caiff rhieni adroddiadau tymhorol ar gynnydd. Caiff y rhain eu defnyddio fel sail i drafodaeth yn ystod noson rhieni. Yn B11, cyflwynir Cofnod Cyrhaeddiad i'r disgyblion sy'n gofnod buddiol o'u datblygiad a'u cyrhaeddiad.

## 5.3 Y cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm eang a chytbwys a ddarperir yn cydymffurfio â'r gofynion statudol, a hefyd yn sicrhau cyrsiau sy'n adlewyrchu cyflogaeth yr ardal. Atgyfnerthir y cwricwlwm gan gyfraniad allgyrsiol da iawn o fyd diwydiant, a chan weithgareddau allgyrsiol amrywiol a chyfoethog. Mae gwersi ABCh hefyd yn gwneud cyfraniad effeithiol i gytbwysedd cwricwlaidd.

Yn CA3, atgyfnerthir datblygiad personol disgyblion yn sylweddol gan wers ddrama wythnosol. Mae cyfanswm dyraniad amser ar gyfer hanes, daearyddiaeth, addysg gorfforol, cerdd a chelf ar draws CA3 yn cydymffurfio ag argymhellion ACCAC ond gall olygu amser addysgu prinach ar gyfer pwnc mewn blynyddoedd unigol.

Mae'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda; yn B9, lle cânt eu haddysgu mewn dosbarthiadau prif lif, derbyniant gymorth ychwanegol.

Mae'r ysgol wedi cynllunio'n fwriadus ar gyfer gyflwyno'r rhai o'r medrau allweddol ac agweddau eraill y cwricwlwm. Darperir yn dda i gyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cymreig, yn enwedig mewn pynciau iaith a'r dyniaethau. Darperir gwers TG yn B7 ond anfoddhaol yw'r cynllunio a'r gweithredu i sicrhau cyfraniad pynciau eraill i ddatblygiad medrau TGCh ar draws y cwricwlwm yn ystod gweddill CA3 ac yn CA4. Bu'r sylw a roddodd yr ysgol i lythrennedd yn fodd i atgyfnerthu rhai agweddau, megis sillafu, y defnydd o dermau arbenigol a chyflwyniad gwaith, yn effeithiol. Nid yw wedi dylanwadu i'r un graddau ar uwch fedrau darllen, na llafaredd.

Mae'r trefniant ar gyfer hybu rhifedd yn dechrau cael effaith mewn rhai pynciau. Darperir elfen o addysgu medrau allweddol naill ai fel rhan o'r cwrs CGCC neu fel gwersi unigol eraill.

Crëir grwpiau addysgu yn CA3 ar sail ieithyddol drwy greu dau grŵp cyfrwng Cymraeg wedi eu bandio yn fras ar sail gallu, un grŵp cyfrwng Saesneg gallu cymysg, a grŵp o ddisgyblion gydag AAA. Mae hyn yn golygu y ceir ystod eang iawn o allu mewn ambell bwnc. Yn ogystal, mae'r cyfosod presennol yn arwain at anghydbwysedd yn nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau. Mae rhai dosbarthiadau mawr ar gyfer pynciau ymarferol, er enghraifft dylunio a thechnoleg, celf a gwyddoniaeth, lle mae ystyriaethau iechyd a diogelwch yn gofyn am grwpiau llai.

Cynigir ystod eang o ddewisiadau yn CA4, sy'n cynnwys cyrsiau cyn-alwedigaethol. Yn eu plith, mae cyrsiau amaethyddol ac adeiladwaith, a drefnir mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill. Mae'r cyrsiau hyn yn effeithiol iawn. Ni chynigir ond un iaith fodern drwy'r ysgol, ond cyfoethogir cwricwlwm B10 drwy gwrs gwleidyddiaeth. Mae'r trefniant i nifer o ddisgyblion sefyll Cymraeg ail iaith yn B10 ac yna Cymraeg iaith gyntaf yn B11 yn briodol ac yn codi eu cyflawniad yn y pwnc.

Gydag eithriadau, mae cynlluniau gwaith adrannau yn dda, ond mae ansawdd dogfennaeth adrannau yn amrywio o'r da iawn i'r boddhaol; fel arfer mae'n foddhaol.

Gwna gwaith cartref, a osodir yn gyson ac a gofnodir mewn dyddiadur, gyfraniad effeithiol i ddysgu disgyblion.

Mae mwyafrif helaeth y disgyblion llai galluog yn sefyll arholiadau TGAU neu TCA; mewn rhai pynciau, megis Saesneg, y nod yw i bob disgybl sefyll arholiad TGAU a defnyddir yr arholiad TCA

fel cam tuag at hyn. Nid oes polisi penodol traws-ysgol ar fynediad i arholiadau ac mae'r canran sy'n sefyll TGAU yn y pynciau craidd yn amrywio o bwnc i bwnc.

Mae cwricwlwm B12 a B13 yn eang ar gyfer ysgol o'r maint. Darperir ystod eang o gyrsiau, yn cynnwys rhai cyrsiau galwedigaethol. Mae'r ymdrech i ddarparu dewis eang o bynciau i fyfyrwyr B12 a B13 yn achosi gwrthdaro amserlen mewn nifer arwyddocaol o bynciau. Effaith hyn yw bod yr amser a ddyrennir i ambell bwnc yn B12 a B13 yn is na'r hyn sydd ei angen i gwblhau'r maes llafur yn llwyddiannus; mae athrawon yn gwneud pob ymdrech i liniaru effaith y diffyg hwn.

### 5.4 Cymorth, cyfarwyddyd a lles disgyblion

Mae'r cymorth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn dda. Mae gan yr athrawon, gan gynnwys aelodau'r UDRh, adnabyddiaeth drylwyr o'r disgyblion sydd dan eu gofal a gwnânt bob ymdrech i'w cynnal yn fugeiliol ac yn academaidd. Llwyddodd yr ysgol i sefydlu awyrgylch cartrefol a theuluol yn seiliedig ar rwydwaith o gysylltiadau anffurfiol o fewn yr ysgol a thrwy gysylltiadau allgyrsiol. Ymetyb y disgyblion yn gadarnhaol i'r gofal a ddangosir drostynt ac maent yn barod iawn i droi at yr athrawon am gyngor pan gyfyd yr angen.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cyfundrefn fugeiliol sy'n gydnaws â'i maint a natur yr ardal a wasanaetha. Paratowyd disgrifiadau swydd sy'n amlinellu cyfrifoldeb pawb a chyfraniad o fewn y gyfundrefn ofal, ynghyd â'r cysylltiadau sydd rhyngddynt. Sylfeinir y gyfundrefn ar gyfraniad y tiwtoriaid dosbarth, a neilltuir dau gyfnod cofrestru yr wythnos er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Byddant hefyd yn cysylltu ag athrawon pwnc a phenaethiaid blwyddyn yn ôl y galw. Mae'r drefn ddyddiaduron gwaith cartref yn effeithiol fel arf i gadw golwg ar gyflawniad gwaith cartref ac fel cyswllt buddiol rhwng yr ysgol a'r rhieni. Yn ogystal, mae'r cyswllt rhwng y tiwtoriaid dosbarth a'r athrawon pwnc, a all weithio i'r ddau gyfeiriad, yn effeithiol o ran adnabod tangyflawniad ac ymddygiad annerbyniol.

Y tiwtoriaid dosbarth, gan amlaf, sy'n gyfrifol hefyd am gyflwyno rhaglen ABCh yr ysgol. Trefnir gwers wythnosol i bob dosbarth drwy'r ysgol a pharatowyd rhaglen fanwl a chydlynnus sy'n sicrhau profiadau perthnasol i'r disgyblion ar wahanol gyfnodau yn eu datblygiad. Yn ogystal, disgwylir i'r adrannau pwnc gyfrannu'n benodol at y rhaglen. Gan amlaf, amlinellir cyfraniad yr adrannau yn eu cynlluniau gwaith. Er bod rhai adrannau, megis Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth, yn cyfrannu'n sylweddol at agweddau moesol, cymdeithasol ac iechyd corfforol, prin bod y cyfraniadau hyn wedi eu cynllunio'n benodol i ymateb i ofynion y rhaglen ganolog. Yn hytrach, codi'n naturiol o gyd-destun y drafodaeth a wnânt. Eto i gyd, mae cyfraniad rhai pynciau yn werthfawr. Gydag ambell eithriad, cyflwynir y rhaglen gyflawn yn effeithiol ac mae'r disgyblion yn ymateb yn dda. Mae'r ddarpariaeth yn cyfateb yn dda i ofynion y fframwaith a baratowyd gan ACCAC.

Caiff yr holl ddarpariaeth ei harfarnu drwy gyfrwng cyfres o gyfarfodydd a drefnir ar lefel blwyddyn gan y pennaeth blwyddyn, ar lefel cyfnod allweddol gan y cyd-gysylltydd ABCh ac ar lefel y Pwyllgor Bugeiliol gan un o'r dirprwyon. Rhydd hyn gyfleon cyson i fonitro gweithrediad y gyfundrefn ac i fireinio cynnwys a dulliau cyflwyno'r rhaglen ABCh. Yn ychwanegol, bu aelodau'r UDRh yn ymweld â thrawsdoriad o gyfnodau cofrestru i fonitro'u heffeithiolrwydd; arweiniodd hyn at gyfres o argymhellion. Er hynny, erys rhai anghysondebau yn y modd y caiff bwriadau eu gweithredu.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg ac arweiniad gyrfaol yn dda. Cyflwynir unedau gyrfaol drwy gyfrwng y rhaglen ABCh, ac yn B10 a B11 trefnir gwersi gyrfaoedd penodol. Mae'r rhaglen wedi ei strwythuro'n ofalus, y cyflwyniad yn dda ac ymateb y disgyblion yn gadarnhaol. Trefnir mewnbwn sylweddol i'r maes gan Gyrfa Cymru sy'n cynnwys cynadleddau gyrfaoedd a gynhelir ar

y cyd â'r ysgol bob dwy flynedd. Hefyd, trefnir ymweliadau â cholegau addysg bellach er mwyn i'r disgyblion flasu'r cyrsiau sydd ar gael ynddynt.

Cynllunnir cyfnod profiad gwaith ar gyfer disgyblion B10 dros bythefnos ar ddiwedd tymor yr haf. Ceisir cwrdd â gofynion y disgyblion a threfnir y profiad yn ofalus gyda golwg ar ofynion iechyd a diogelwch. Gwneir ymdrech deg i ymweld â disgyblion yn eu lleoliad gwaith. Bydd pob disgybl yn cadw dyddiadur sy'n amlinellu eu profiadau. Manteisia ambell adran ar y cyfnod profiad gwaith fel symbyliad i waith pellach. Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn o'i chyfrifoldeb am ddiogelwch y disgyblion sydd dan ei gofal. Paratowyd polisïau perthnasol ac apwyntiwyd athro i fod yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles y disgyblion. Cafodd gyfle i annerch y staff cyfan ar y materion hyn.

Cyflwynir ffeithiau addysg iechyd a rhyw mewn gwersi gwyddoniaeth a delir ag agweddau eraill, megis cyfrifoldeb personol ac agweddau moesol a chymdeithasol, yn ystod gwersi ABCh. Mae polisi 'Cyffuriau a Chamddefnyddio Sylweddau' yr ysgol yn rhestru bwriadau a dulliau gweithredu. Cyfoethogir y ddarpariaeth yn sylweddol gan nyrs yr ysgol sy'n ymweld yn wythnosol. Llwyddodd i sefydlu'r fath berthynas gyda'r disgyblion sy'n ei gwneud yn hawdd iddynt fynd ati i drafod problemau personol yn gwbl gyfrinachol. Gwneir defnydd cyson o'r ddarpariaeth hon.

Mae gan yr ysgol 'Gynllun Disgyblion Dadrithiedig' sy'n anelu at gynnal disgyblion trafferthus a allai fod mewn perygl o gael eu diarddel o'r ysgol. Mae gweithwraig gymdeithasol, a gyflogir gan Wasanaeth Ieuenctid y sir, yn ymweld â'r ysgol i gyfarfod deg o ddisgyblion. Gan ei bod yn rhedeg Clwb Iau yn nhref y Bala, bydd yn gweld nifer o'r disgyblion gyda'r nos yn ogystal. Caiff disgyblion eu cyfeirio ati gan yr ysgol; gallant hefyd fynd ati o'u gwirfodd. Gosodir targedau ar gyfer unigolion yn gysylltiedig ag ymddygiad, presenoldeb, prydlondeb a gwaith cartref. Y nod yw ceisio gwella eu hunan-barch a'u hagwedd. Caiff disgyblion sy'n cyflawni eu targedau eu gwobrwyo, megis mynd i'r sinema. Mae tystiolaeth fod y berthynas a feithrinnir yn cael dylanwad cadarnhaol ar y disgyblion hyn.

Archwilir offer diffodd tân yr ysgol yn rheolaidd ac mae gan nifer o'r staff gymwysterau cyfredol mewn Cymorth Cyntaf. Mae ambell broblem diogelwch yn codi mewn rhai pynciau. Ni thelir sylw digonol i ddiogelwch mewn rhai gwersi cemeg. Mae'n anfoddhaol o safbwynt goruchwilio bod un athro yng ngofal grwp o ddisgyblion celf mewn ystafelloedd ar lawr gwahanol.

Drwy ei gweithdrefnau ffurfiol a'r cysylltiadau anffurfiol sy'n nodwedd mor amlwg o gymuned yr ysgol, llwyddir i gynnal y disgyblion yn effeithiol a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu safonau cyflawniad.

### 5.5 Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig [AAA]

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac mae ymateb yr ysgol i ofynion y Côd Ymarfer hefyd yn dda.

Defnyddir sawl strategaeth briodol i gyfarfod ag anghenion y disgyblion. Gosodir disgyblion o alluoedd is mewn grwpiau bach, a chânt eu haddysgu gan athrawon pwnc heblaw am Saesneg a mathemateg. Mae peth hyblygrwydd yn y grwpiau a chynigir cyfleoedd addas i ddisgyblion symud i ddosbarth prif ffrwd. Tynnir disgyblion allan o ddosbarthiadau'r prif ffrwd i dderbyn cymorth ychwanegol.

Yn y setiau a drefnir mewn nifer o bynciau, mae'r disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da sy'n gyson â'u gallu. Defnyddir strategau addysgu addas ac mae'r berthynas rhwng yr athro a'r disgybl yn dda. Yn CA4, caiff y disgyblion hyn fynediad i gyrsiau CGC, TCA a TGAU. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r holl setiau, gan gynnwys y setiau AAA, yn dilyn yr un gwaith. Golyga hyn y gall y disgyblion symud o set AAA i ddosbarth prif ffrwd.

Mae naw disgybl yn cael eu tynnu allan o'r gwersi'r prif ffrwd i dderbyn cymorth ychwanegol mewn llythrennedd. Mae gwaith y disgyblion hyn wedi ei drefnu'n dda iawn a seilir eu Cynllun Addysg Unigol [CAU], ar gyfuniadau o ddeunyddiau masnachol addas. Mae'r disgyblion yn ymroi i'w tasgau'n egniol ac yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Datblygant hyder yn eu gallu eu hunain a gwerthfawrogant y cymorth a roddir iddynt.

Adrannau pwnc sy'n gyfrifol am ddarparu gwaith ar gyfer disgyblion ag AAA o fewn eu maes cwricwlaidd. Mae cysylltiad anffurfiol da rhwng athrawon pwnc â'r athrawes AAA. Dosberthir gwybodaeth berthnasol am bob disgybl sydd ar gamau 2 i 5 o'r Côd Ymarfer i bob athro. Mae nifer o'r gwersi prif ffrwd yn adlewyrchu'r wybodaeth hon yn eu cynllunio.

Mae saith o gymorthyddion dysgu yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion unigol neu mewn grŵp bach. Maent yn cydweithio'n dda gyda'r athrawon dosbarth, gan gynnig cynhaliaeth fuddiol i'r disgyblion a chadw cofnod manwl o'r gwaith. Rhennir yr wybodaeth yn rheolaidd gyda'r cyd-gysylltydd AAA. Fodd bynnag, ni wneir y defnydd mwyaf effeithiol o'i hamser.

Mae gan 18 o ddisgyblion ddatganiad o AAA. Adolygir y datganiadau yn ôl y gofyn ac ymgynghorir â rhieni, asiantau allanol a'r AALl. Datgymhwyswyd yn briodol elfen o'r CC ar gyfer pedwar disgybl er mwyn iddynt dderbyn cymorth ychwanegol gyda'u medrau llythrennedd. Addaswyd y CC ar gyfer tri disgybl i'w galluogi i ddatblygu medrau addysgol sy'n berthnasol i'w anghenion. Nodwyd 28 o ddisgyblion ar gyfer camau 2 a 3 o'r gofrestr AAA. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Adolygir y gofrestr AAA yn rheolaidd ac yn effeithiol. Mae gan bob disgybl sydd ar gamau 2, 3 a 5 CAU priodol ynghyd â rhaglen waith sy'n adlewyrchu targedau'r CAU. Mae'r CAU yn perthnasu'n dda ag anghenion yr unigolyn, ac â'u datganiadau, yn ôl y gofyn. Trwy roi copi o'r CAU i rieni, cynhelir cysylltiad buddiol â hwy; mae hyn yn arfer da iawn.

Mae'r athrawes dros dro sydd â gofal am AAA yn cynnig arweiniad da. Mae'n datblygu cysylltiad da gyda'r adrannau, yn trefnu'r gwaith yn ofalus ac yn sicrhau darpariaeth dda. Mae'r pennaeth a'r lywodraethwraig ddynodedig yn gefnogol i'r gwaith ac yn sicrhau dilyniant yn absenoldeb y cyd-gysylltydd. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol ac wedi sicrhau cymorth a strategau effeithiol i ddelio â disgyblion sydd â phroblemau emosiynol dwys. Mae'r ysgol wedi datblygu strategau ysgol gyfan effeithiol i gwrdd ag anghenion disgyblion ag AAA.

### 5.6 Partneriaeth gyda rhieni a'r gymuned, ysgolion a sefydliadau eraill

Mae cyswllt gyda'r rhieni a'r gymuned, ysgolion ac asiantau eraill yn dda.

Mae rhieni yn barod i fynychu cyfarfodydd i drafod gwaith eu plant, ac maent hefyd yn gefnogol i ddigwyddiadau cymdeithasol, diwylliannol a rhai i godi arian. Ar y cyfan, caiff y rhieni yr adroddiadau yn ddefnyddiol iddynt. Mae nifer ohonynt yn cynorthwyo mewn ffordd ymarferol ac mae hyn yn cynnwys cynnal rhan o'r cwrs amaeth ar eu ffermydd; mae'r cwrs yn esiampl dda o gydweithrediad rhwng ysgol a chymuned. Mae llawlyfr yr ysgol yn cwrdd â gofynion statudol. Mewn holiadur diweddar, mynegodd tua 85% o'r rhieni a atebodd eu bodlonrwydd cyffredinol gyda'u cyswllt â'r ysgol a'r wybodaeth a dderbyniant ganddi. Mae hyn yn ategu'r farn a fynegwyd yn y cyfarfod cyn arolygu gyda'r rhieni.

Mae’r Gymdeithas Lenyddol leol a’r Clwb Rotari yn gwobrwyo’n flynyddol enillwyr cystadlaethau ysgrifennu yn y Saesneg a’r Gymraeg ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Mae’r ysgol yn cyfrannu at y gwahanol fforymau a sefydlwyd i ymdrin â gwaith a dyfodol yr ardal. Cydweithir hefyd gyda’r Parc Cenedlaethol ar brosiect ailgylchu ac mae cysylltiadau buddiol gyda Chymdeithas Cyfeillion Eryri a Chronfa Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Defnyddir adeiladau’r ysgol yn helaeth iawn ar gyfer cyrsiau yn y gymuned, yn enwedig fin nos, a dyrannwyd arian yn ddiweddar ar gyfer astudiaeth dichonolrwydd datblygu canolfan dysgu drwy gydol oes ar y safle. Mae’r cyrsiau Agridata a drefnir ar gyfer penwythnosau a min nos o fudd i rieni ac aelodau eraill o’r cyhoedd ac yn atgyfnerthu ymhellach y cyrsiau cyn-alwedigaethol mae’r ysgol yn eu trefnu. Daw gweinidogion ac offeiriad i mewn i siarad â disgyblion ac mae cyswllt buddiol gyda sefydliadau crefyddol. Ceir cyd-ddefnydd gyda’r cyhoedd o lyfrgell ar y safle, ac mae cyswllt clos gyda chlybiau chwaraeon y cylch, gan gynnwys benthyca caeau chwarae. Cyd-drefnir rhaglen eang o gêmau cystadleuol gydag ysgolion eraill.

Unwyd llyfrgell yr ysgol gyda’r llyfrgell gyhoeddus ar y safle ac mae hyn wedi agor cyfleoedd ar gyfer cydweithrediad sylweddol rhwng yr ysgol a’r gwasanaeth llyfrgell. Er nad yw pob adran wedi llawn manteisio ar y cyfleoedd, mae nifer o adrannau yn gwneud defnydd da o’r llyfrgell wrth i grwpiau o ddisgyblion astudio ac ymchwilio yno. Mae’r cyfyngiad ar y dyddiau y gall y gwahanol flynyddoedd defnyddio’r llyfrgell ar gyfer ymchwil yn diffodd brwdfrydedd rhai disgyblion dros ei defnyddio yn ystod yr awr ginio.

Mae’r pennaeth yn gweithredu fel cyd-gysylltydd gyda’r un ar bymtheg ysgol gynradd yn y dalgylch. Bu hyn yn fodd iddo wneud cyswllt cynnar gyda’r holl rieni sy’n debygol o anfon eu plant i’r ysgol. Trefnodd yr ysgol gyfres o gyfarfodydd anwytho manwl ac roedd y rhain yn cynnwys rhoi blas ar gwricwlwm uwchradd i ddisgyblion B6. Mae cysylltiadau cwricwlaidd yn gyffredinol dda; tystiodd yr ysgol iddi drefnu gwersi gwyddoniaeth ac ymweliadau mathemateg i’r ysgolion cynradd gan y staff uwchradd. Trefnir cyd-brosiect hanes eleni ynghyd â thrafodaethau ar y Saesneg a rhifedd; llynedd trefnwyd cyd-drafodethau ar y Gymraeg. Hefyd, defnyddia’r ysgolion cynradd nifer dda o gyfleusterau yr ysgol uwchradd. Dal i ddatblygu mae cydgynllunio yn ddigon bwriadus i sicrhau dilyniant cwricwlaidd llawn, ond mae arfer dda yn datblygu’n effeithiol.

Gwneir defnydd o wasanaethau cefnogol yr AALl, ac mae’r gefnogaeth ymgynghorol yn dda. Mae staff Prifysgol Bangor yn cyfrannu’n fuddiol i addysg y disgyblion mewn mwy nag un adran, ac mae’r ysgol hefyd yn mentora darpar athrawon dan hyfforddiant o Brifysgol Aberystwyth.

## 5.7 Partneriaethau gyda diwydiant

Mae partneriaeth yr ysgol gyda diwydiant yn dda.

Nid oes gan yr ysgol bolisi ffurfiol yn ymwneud â'i phartneriaeth â diwydiant. Er hynny, mae'r CDY yn manylu ar athroniaeth a bwriadau'r ysgol yn ei chyswllt â diwydiant.

Darperir pythefnos o brofiad gwaith ar gyfer disgyblion B10 ac wythnos ar gyfer B12. Mae'r trefniadau hyn yn dda a dyfarnwyd gwobr RoQA i'r ysgol am ansawdd y profiad gwaith a ddarperir. Pan fo'r profiad gwaith yn rhan o waith cwrs pynciol mae'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i safonau disgyblion unigol.

Darperir cyfarwyddyd ac addysg yrfaol o ansawdd da gan staff profiadol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r Cwmni Gyrfa.

Llwyddodd 87% o ddisgyblion B11 i ennill tystysgrif COMPACT yn 2001, sy’n ganran dda. Golyga hyn eu bod wedi dangos ymroddiad i'w gwaith cwrs ar gyfer arholiadau allanol a hefyd bod eu presenoldeb yn dda.

Mae'r ysgol wedi manteisio yn helaeth ar amrywiol gynlluniau gan asiantau sy'n darparu grantiau ar gyfer symbyliad a menter. Yn 2000, derbyniwyd grant gan “Education Extra” ar gyfer datblygu’r cwricwlwm alwedigaethol. Cafwyd nawdd hefyd oddi wrth Addysg a Hyfforddiant Cymru [ELWa] ar gyfer costau staffio'r cyrsiau amaethyddiaeth ac adeiladwaith sy'n boblogaidd gyda rhai o ddisgyblion CA4. Gyda chydweithrediad rhai o staff y Cyngor Cefn Gwlad a chynllun punt am bunt ELWa, mae disgyblion astudiaethau busnes wedi sefydlu cwmni llwyddiannus, Compost Tegid. Yn ddiweddar, llwyddwyd i ddenu grant o £15,000 gan ELWa i ariannu astudiaeth dichonolrwydd y bwriad i sefydlu canolfan dysgu gydol oes ar safle'r ysgol. Cafwyd nawdd oddi wrth Cymdeithas Cyfeillion Eryri a Chronfa Ymddiriedolaeth y Tywysog i sefydlu gardd yr ysgol.

Mae gweithgareddau megis rhedeg banc neu siop yr ysgol, ymweliadau addysgiadol, neu gymryd rhan mewn cystadlaethau, oll yn cyfrannu tuag at well dealltwriaeth o fusnes a diwydiant gan grwpiau amrywiol o ddisgyblion.

Mae nifer boddhaol o staff wedi manteisio ar gyfleoedd i dreulio amser ar leoliad mewn busnes neu ddiwydiant. Mae eraill wedi meithrin cysylltiadau personol â diwydiant neu sydd â phrofiad blaenorol o weithio mewn diwydiant.

Sefydlwyd nifer o gyrsiau min nos i ddarparu hyfforddiant ar gyfer aelodau o'r gymuned leol. Cynhaliwyd fforwm buddiol gyda chynrychiolwyr o fusnesau a diwydiannau lleol i drafod y medrau sy’n bwysig iddynt.

## 6. RHEOLAETH

### 6.1 Ansawdd hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

Mae ansawdd hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn foddhaol.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae’r ysgol wedi rhoi sylw o’r newydd a phwyslais ysgol gyfan i’r broses o hunan-arfarnu. Cynhaliwyd HMS penodol o fewn yr ysgol ar gyfer yr holl athrawon er mwyn cyflwyno ac egluro’r camau y dylid eu dilyn. Ymdrechir i sefydlu diwylliant hunan-feirniadol ymhlith y staff, ond nid yw’r broses wedi ei sefydlu’n llawn. Gosodwyd gweithdrefnau da ond nid ydynt yn llawn weithredol.

Llynedd, ymwelodd y prifathro â thrawsdoriad o wersi, ond eleni disgwylir i benaethiaid adran fonitro gwaith eu hadran, gan gynnwys ymweld â dosbarthiadau. Mewn sawl adran, mae athrawon wedi arsyllu gwersi ei gilydd er mwyn arfarnu ansawdd yr addysgu. Mae hyn yn arfer dda. Ar adegau, arfernir safonau gwaith y disgyblion yn ogystal ac mae hyn yn digwydd drwy drafod gyda disgyblion ac archwilio llyfrau gwaith. Dadansoddir canlyniadau profion ac arholiadau hefyd, ond anghyson yw’r drefn hunan- arfarnu o adran i adran.

Wrth gynnal arfarniad adrannol, mae cyfle i adran ddewis maes i ganolbwyntio arno, ond anaml y gosodir meini prawf y gellir mesur ansawdd yn eu herbyn. Anfoddhaol yw’r defnydd o ddata cenedlaethol a lleol gan yr adrannau i gymharu ansawdd perfformiad yr ysgol yn erbyn perfformiad ysgolion eraill. Mae rhai adrannau yn defnyddio’r data hyn er mwyn gwella eu perfformiad. Mae’r defnydd o’r data yn caniatáu i adrannau arfarnu dilysrwydd eu polisïau er enghraifft polisi mynediad i arholiadau TCA a TGAU. Ar adegau, fodd bynnag, mae’r dadansoddi yn canolbwyntio’n ormodol ar gyfiawnhau’r canlyniadau yn hytrach na bod yn sbardun i wella perfformiad.

Ar ei gorau, mae’r broses hunan-arfarnu yn arwain at ganfyddiadau o gryfderau a gwendidau, ac mae’r drefn a osodir gan yr ysgol yn sicrhau fod y pennaeth yn derbyn adroddiadau gan yr adrannau

ar y canfyddiadau hyn. Mae rhai adrannau yn gwneud defnydd o ganlyniadau hunan-arfarnu i lywio blaenoriaethau'r CDY. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, nid amlinellir y broses hon yn y cynlluniau datblygu adran [CDA].

## 6.2 Arweinyddiaeth ac effeithiolrwydd

Mae ansawdd arweinyddiaeth ac effeithlonrwydd yr ysgol yn foddhaol.

Arweinir yr ysgol gan bennaeth sy'n meddu ar weledigaeth glir o rôl yr ysgol yn y gymdeithas leol. Mae'n rhoi blaenoriaeth i hybu safonau drwy sicrhau arlwy cwricwlaidd sy'n hybu cynhwysiad cymdeithasol. Rhennir y nod hwn gan aelodau eraill y UDRh, gan weddill y staff a chan y llywodraethwyr, sy'n gefnogol iawn i'r ysgol. O ganlyniad, llwyddir i greu ethos gwaith pwrpasol. Mae'r CDY o ansawdd boddhaol ac yn blaenoriaethu datblygiadau addysgol sy'n bwysig i'r ysgol dros gyfnod o dair blynedd. Nodir deilliannau disgwyliedig ond nid yw'r blaenoriaethau wedi eu costio'n ddigon manwl. Er bod y CDA yn aml yn rhannu'r un penawdau, ychydig o ddylanwad sydd gan y CDA ar y CDY.

Mae'r pennaeth wedi monitro bob athro'n gyson, ac mae'r monitro'n fuddiol, ond monitro staff unigol sy'n digwydd yn hytrach na monitro adrannau a safonau pynciol. Bu i aelodau eraill y UDRh fonitro agweddau o waith tiwtoriaid dosbarth, gan gynnwys ABCh, ond ni weithredwyd yr holl argymhellion, megis cynnal addoliad ar y cyd. Rhoddir canllawiau i'r staff o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ond nid yw'r cyswllt ffurfiol rhwng y UDRh ac adrannau unigol yn ddigon cryf i sicrhau cysondeb yng ngweithrediad yr adrannau o flaenoriaethau'r ysgol na chwaith i sicrhau cymorth a chefnogaeth ddigonol i'w cyflawni.

Amrywia ansawdd rheolaeth adrannau o'r anfoddhaol i'r da. Anfoddhaol yw rheolaeth TG fel pwnc a TGCh fel medr allweddol ar draws y cwricwlwm. Mae rheolaeth rhai adrannau, megis y Gymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg, yn dda. Boddhaol, ar y cyfan yw ansawdd y CDA. Gyda rhai eithriadau, megis y Gymraeg, anfoddhaol yw ansawdd cofnodion cyfarfodydd adran.

Llunnir y gyllideb gan y pennaeth mewn ymgynghoriad â'r corff llywodraethol ac fe'i gweinyddir yn effeithiol gan y swyddog gweinyddol. Manteisir yn llawn ar ddiddordeb ac arbenigedd aelodau unigol o'r corff llywodraethol i fonitro gwariant yn rheolaidd. Adlewyrcha'r sylw a roddir i'r gyllideb ymdrech barhaol i fyw oddi mewn i'r dyraniad cyllidol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2000-2002, disgwylir i 3.4% o'r cyllid, sy'n swm rhesymol, fod wrth gefn. Llwyddodd yr ysgol i ategu at y dyraniad drwy ddenu symiau sylweddol gan fudiadau y tu allan i'r ysgol. Defnyddir cyfraniadau ariannol a dderbynnir gan rieni'n ddoeth ond cymharol brin fu gwariant ar adnoddau. Ymatebwyd yn briodol i'r materion a nodwyd yn yr archwiliad ariannol sirol diweddaraf yn Ebrill 2000.

Cynigir ystod eang o bynciau yn B12 a B13. Mae nifer yn y dosbarthiadau yn aml yn fach ac nid yw llawer o'r cyrsiau yn gost effeithiol. Serch hynny, mae'r ddarpariaeth hon yn bwysig o safbwynt darparu addysg ddwyieithog ar gyfer B12 a B13 yn lleol. Honna'r ysgol ei fod yn un ffactor sy'n cymell rhieni i ddewis anfon eu plant i'r ysgol hon ar ddechrau B7.

O ystyried y safonau ar lawr y dosbarth a'r canlyniadau allanol yn gyffredinol, mae'r ysgol yn rhoi gwerth am yr arian a ddyrennir.

Mae cyfathrebu o ddydd i ddydd yn effeithiol a'r drefn weinyddol ddyddiol hefyd yn effeithiol. Nid yw dogfennaeth yr ysgol bob amser yn dangos y manylion llawn am drefniadau'r ysgol, er bod y trefniadau'n glir i'r rhai sydd yn yr ysgol. Yn gyffredinol, cydymffurfir â'r gofynion statudol ac ag argymhellion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 6.3 Staffio, adeiladau ac adnoddau dysgu

### a) Staffio

Mae gan yr ysgol staff addas i ateb ei gofynion cwricwlaidd, ac ar y cyfan mae eu cymwysterau yn cyfateb yn dda i'r meysydd a addysgir ganddynt. Yn yr achosion lle mae athrawon yn addysgu y tu allan i'w harbenigedd, cynigir cefnogaeth dda iddynt, er enghraifft mewn addysg grefyddol, Mathemateg a Saesneg. Mae cymhareb athro disgybl yr ysgol yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan y staff ddisgrifiadau swydd clir sy'n nodi eu swyddogaethau cwricwlaidd a bugeiliol. Mae eu hamser digyswllt, at ei gilydd, yn cyfateb i'w cyfrifoldebau. Mae camau priodol wedi eu cymryd i sicrhau dilyniant effeithiol yn ystod absenoldeb hir rhai staff, gan gynnwys defnyddio asiantau athrawon cyflenwi. Derbynnir cadarnhad ysgrifenedig gan yr asiantau hyn bod yr athrawon llanw yn cydymffurfio â gofynion arferol swydd athro.

Er nad yw athrawon yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol, mae datblygiad proffesiynol pellach y staff wedi seilio ar gynllun trothwy athrawon ar y CDY a'u HMS. Cedwir cofnod manwl o'r holl gyrsiau hyfforddiant a fynychir ac mae gweithdrefnau wedi eu sefydlu i sicrhau bod yr arbenigedd a enillwyd gan unigolion yn cael ei rannu gydag athrawon eraill.

Caiff athrawon sydd newydd gymhwyso gymorth da gan yr adrannau a dilynant raglen sefydlu a gynlluniwyd yn dda, er na fu'r cyfarfodydd mor gyson ar ôl y Nadolig. Mae'r cymorth bugeiliol a gaiff athrawon llanw yn effeithiol a darperir gwybodaeth briodol pan gyrhaeddant yr ysgol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau boddhaol gyda sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon a chaiff yr ychydig athrawon dan hyfforddiant gymorth ac arweiniad da.

Mae staff atodol yn cynnig cymorth effeithiol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol.

### b) Adeiladau

Mae cyflwr yr adeiladau yn gyffredinol dda ac maent yn cael eu cadw'n lân a thaclus. Er hynny, mae nifer o'r landeri yn gorlifo pan fo'n glawio.

Ategir at amgylchfyd ddymunol yr ysgol gan ardd a gynlluniwyd ar ffurf atrium mewnol gan y disgyblion a'r staff.

Gwneir defnydd da o'r ystafelloedd addysgu. Bron yn ddieithriad, mae'r arddangosfeydd a baratoir yn symbylus, a chedwir cydbwysedd da rhwng gwaith disgyblion a gwaith cynhaliol athrawon. Mae nifer o'r ystafelloedd dosbarth yn cael eu defnyddio ar gyfer addysgu mewn mwy nag un pwnc. Mae rhai ystafelloedd yn fach ar gyfer y gweithgareddau a gynhelir ynddynt, er enghraifft cerdd, TG a hanes. At ei gilydd, mae athrawon a disgyblion yn ymdopi'n dda â'r anawsterau a gyfyd. Mae diffyg lle i storio mewn ambell adran (mathemateg, hanes, daearyddiaeth, celf).

Mae'r labordai mewn cyflwr da. Mae gwaith o uwchraddio un labordy bron a chael ei gwblhau.

Mewn dwy gornel yn y gweithdai dylunio a thechnoleg mae tamprwydd hir dymor wedi difetha'r gwaith plastro. Mae'r sustem sugno llwch yn gweithio'n effeithiol ond nid yw'r offer twymo, sy'n chwythu aer poeth, yn addas mewn gweithdy lle cynhyrchir llawer o lwch.

Mae'r gampfa ar gyfer addysg gorfforol mewn cyflwr da. Mae arwynebedd y cae coch yn anfoddhaol. Mae trefniadau ar y gweill i sefydlu cae pob tywydd newydd ar safle'r ysgol a fydd ar gyfer yr ysgol a'r gymuned.

Mae'r ganolfan adnoddau a ddefnyddir ar y cyd gyda'r gymuned yn adnodd gwerthfawr. Er hynny, mae'r gwahanol weithgareddau sy'n cydredeg yno yn tueddu i amharu ar ei gilydd. Gwelwyd athro yn addysgu grŵp ar y cyfrifiaduron, y cyhoedd yn defnyddio'r llyfrgell a disgyblion B12 a B13 yn ceisio astudio ar yr un pryd. Er bod gan B12 a B13 ystafell gyffredin, nid oes lle tawel addas iddynt astudio ynddo.

Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd a chaiff offer ymladd tân ac offer trydanol cludadwy eu harchwilio'n flynyddol. Rhoddwyd sylw priodol i'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

### (c) Adnoddau Dysgu

Mae cyflenwad ac ansawdd yr adnoddau ar gyfer dysgu yn gyffredinol foddhaol ac yn cyfarfod â gofynion y cwricwlwm. Er hynny, mae prinder gwerslyfrau mewn gwyddoniaeth a Ffrangeg. Bron yn ddieithriad, gwneir defnydd da o'r hyn sydd ar gael ar draws yr adrannau.

Mae cyflwr yr offer arbenigol ar gyfer dylunio a thechnoleg yn dderbyniol.

Mae ansawdd taflenni gwaith yn amrywio o'r boddhaol i'r da. Yn gyffredinol, maent yn dda. Uwchraddiwyd offer cyfrifiadurol yr ysgol yn ddiweddar, ac mae’r offer yn y llyfrgell o ansawdd da. Serch hynny, bu problemau dybryd gyda’r caledwedd a’r meddalwedd dros gyfnod hir ac amharodd hyn ar y ddarpariaeth. Y tu allan i’r bedair ystafell arbenigol, lle disgwylir i’r adrannau wneud defnydd helaeth o’r adnoddau a lle lleolir 57 o’r 78 cyfrifiadur, cyfartaledd o un, neu efallai dau o gyfrifiaduron yw’r ddarparaith o adnoddau TGC at ddefnydd disgyblion a staff. Yn ogystal, mewn nifer o'r adrannau, ychydig o ddefnydd a wneir o offer cyfrifiadurol.

## 7. PYNCIAU A MEYSYDD DYSGU

### 7.1 Safonau a gyflawnir gan y disgyblion

### Cymraeg

Mae safonau’n gyffredinol dda drwy’r ysgol. Weithiau, maent yn dda iawn; bydd rhai unigolion yn cynhyrchu gwaith o safon eithriadol uchel.

Yn CA3 a CA4, mae safon y gwaith llafar yn foddhaol ar y cyfan ond yn dda yn y setiau uchaf. Mae’r disgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynau agored ac yn aml yn cynnig sylwadau digymell. Cydweithiant yn dda wrth drafod mewn grwpiau ac ymatebant yn dda i lenyddiaeth. Mae ganddynt afael sicr ar dechnegau dadansoddi testun. Gwna’r disgyblion ddefnydd cyson a deallus o dermau gwerthfawrogi llenyddiaeth, hyd yn oed yn y blynyddoedd cynnar. Amlyga nifer sylweddol o ddisgyblion afael dda ar gystrawen ac idiomau’r Gymraeg ac mae ganddynt eirfa eang. Er hynny, prin y gwelwyd tystiolaeth o ymatebion estynedig ac o greu bwrlwm o drafod.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae safon darllen-ar-goedd y disgyblion yn dda. Darllenant yn ystyrlon, gan wneud defnydd effeithiol o oslef a phwyslais, a hynny yn fyrfyfyr. Mae nifer dda o ddisgyblion yn darllen yn eang er pleser. Gallant ddadansoddi cynllun a chymeriadau a thrafod eu hoff awduron yn ddeallus. Byddant yn cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau a defnyddiant yr wybodaeth honno yn effeithiol.

Yn CA3 a CA4, mae'r disgyblion ar draws yr ystod gallu yn ysgrifennu mewn amrediad eang o ffurfiau ac i wahanol bwrpasau. O'r cyfnod cynnar, mae'r mwyaf galluog yn ysgrifennu'n hynod effeithiol, gan amlygu iaith gyhyrog a gradd dda o gywirdeb. Gall disgyblion CA3 ysgrifennu'n estynedig wrth fynegi ac amddiffyn barn. Cynhyrchant waith creadigol diddorol ei gynnwys ac effeithiol ei fynegiant. O B9 ymlaen, gall unigolion gynhyrchu darnau o waith creadigol gwefreiddiol o ran ei aeddfedrwydd syniadol a'i fynegiant cain. Erbyn B10 a B11, gall nifer dda o ddisgyblion gynnal barn bersonol a defnyddio tafodiaith ac iaith bersonol yn ôl gofynion y cyd-destun. Er bod gwaith disgyblion canolig eu gallu yn fyrrach a mwy gwallus, pery'n ddiddorol o ran cynnwys.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion ag AAA yn cyflawni'n dda ac yn dangos cynnydd ar draws y medrau. Ymatebant yn dda i gwestiynau a chynigiant ambell ymateb personol perthnasol. Darllenant lyfrau priodol a gallant eu trafod yn ddigon deallus. Mae eu darllen personol yn dangos datblygiad; gallant ddadelfennu geiriau anghyfarwydd a chynnal ystyr wrth ddarllen-ar-goedd. Cynhyrcha'r disgyblion hyn amrediad o waith ysgrifenedig i wahanol bwrpasau. Gallant ysgrifennu'n rhydd ac yn estynedig, ac er ei fod yn wallus o ran sillafu ac atalnodi, mae'n synhwyrol a diddorol.

Gall myfyrwyr B12 a B13 drafod yn ddeallus mewn grwpiau, gan ymateb i safbwyntiau ei gilydd. Dangosant wybodaeth drylwyr o destunau gosod; gallant groesgyfeirio'n ddeallus a chynnal safbwynt yn ddeheuig drwy gyfeirio at dystiolaeth berthnasol sy'n deillio o ddarllen cefndirol eang. Er bod gwaith ysgrifenedig myfyrwyr B12 yn brin o ddehongli ac o farn bersonol ar brydiau, mae o safon dda yn gyffredinol. Yn B13, mae trefn a datblygiad i'r traethodau gorau. Dengys y myfyrwyr y gallu i gymhwyso gwybodaeth yn gelfydd. Mae gwaith creadigol y myfyrwyr yn ddifyr a hyderus. Gallant amrywio cywair yn ddeheuig, mynegi safbwynt yn gadarn, ateb gwrthddadleuon a sicrhau dilyniant rhesymegol i'r gwaith.

**Saesneg**

Mae safonau yn dda yn CA3 ac yn B12 a B13; maent yn foddhaol yn CA4. Ar draws yr ysgol, mae cyflwyniad y gwaith o safon uchel yn gyson.

Yn CA3, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu'r canlyniadau yn arwyddocaol is na'r rhai'r AALl a'r ffigurau cenedlaethol. Yn 2001, roedd y bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn 35 pwynt canran o blaid y merched. Yn TGAU, gwellodd y perfformiad yn sylweddol o'r iselbwynt yn 2000 ond fe bery i fod yn y chwartel isaf ymhlith ysgolion tebyg. Mae canlyniadau llenyddiaeth yn dda. Bu canlyniadau Safon Uwch y cymharol ychydig o fyfyrwyr sy'n sefyll Saesneg fymryn yn well na'u perfformiad mewn pynciau eraill.

Yn CA3, mae safonau llafar drwodd a thro yn foddhaol, mae darllen yn gyson dda a gwaith ysgrifennu hefyd yn dda, gyda'r gorau yn B7 a B8. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn cyrraedd safonau ysgrifenedig da iawn.

Mae disgyblion yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion a'u hathrawon, a gweithiant yn dda mewn trafodaeth pâr; yn achlysurol, mae gwaith mewn grwpiau mwy yn fwy gwasgarog ei sylw. Ar adegau mewn gweithgareddau dosbarth llawn, mynega'r disgyblion eu hunain mewn byr eiriau neu'n or syml; fodd bynnag, yn gyffredinol, Saesneg safonol, er yn aml yn lledieithog, yw eu hiaith lafar. Mae holi yn foddhaol.

Mae darllen-ar-goedd yn dda. Darllena'r disgyblion llai galluog yn gywir tra defnyddia'r mwy galluog newid cyflymdra i greu awyrgylch. Mae disgyblion yn sganio am wybodaeth yn dda, ond heb drosi'r wybodaeth i'w geiriau eu hunain. Amlygir eu diddordeb bywiog mewn darllen ystod o lyfrau yn eu trafodaeth ac adolygiadau llyfrau effeithiol, byr; mae'r goreuon o ansawdd uchel.

Mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa ac o ysgrifennu mewn ystod o gyweiriau. Mae'r gorau, yn B8, yn rhagorol. Dengys llawer o'r gwaith gydlynedd a theimlad am y gair priodol. Mae gan y disgyblion llai galluog afael ar iaith storïol a chynhyrchant ysgrifennu personol cadarn. Maent oll yn gosod allan eu llythyrau yn dda. Mae'r gwallau sillafu sy'n treiddio drwy waith cynnar CA3 yn lleihau'n sylweddol gydag amser wrth i'r cyfnod allweddol fyd rhagddo; mae newid amser y ferf a gwallau diffyg cytundeb hefyd yn lleihau ond ni chânt eu diddymu'n llwyr. Mae gan y mwyafrif afael da ar baragraffu ac atalnodi; canlyniad diffyg gofal yn hytrach nag anwybodaeth yw'r gwallau wrth ddrafftio. Ceir y gwaith ysgrifennu lleiaf effeithiol mewn ffeiliau sy'n cynnwys llai ysgrifennu cydlynnus ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau; yma, mae arddull yn llai datblygedig, Hyd yn oed yma, mae'r ysgrifennu, llawer ohono yn ymarferion neu waith darllen a deall, o leiaf yn foddhaol. Yn B9, mae gwaith ysgrifenedig yn gadarn drwodd a thro; er bod y sillafu'n gywir a'r strwythur brawddeg yn dda, mae'r ysgrifennu yn cydio sylw'r darllenydd llai nag a wna mewn blynyddoedd cynharach. Fodd bynnag, mae ymateb sensitif i farddoniaeth a'r defnydd o ddelweddau yn nodweddion cyffredin ar draws y cyfnod allweddol.

Yn CA4, mae safonau gwaith llafar ar y cyfan yn foddhaol, ac mae darllen yn dda at ei gilydd. Mae gwaith ysgrifenedig yn dda drwodd a thro; mae'r mwyaf galluog, a disgyblion ag AAA, yn cynhyrchu darnau ysgrifenedig da yn gyson. Mae'r mwyafrif mawr yn gwrando'n dda.

Mae'r disgyblion llai galluog hŷn yn amharod iawn i fynegi barn, ac ar adegau gwnânt hynny yn Gymraeg yn hytrach na Saesneg. Tuedda llawer o'r disgyblion eraill, er bod ganddynt syniadau da, i fod yn dawedog; mae lleiafrif arwyddocaol, sy'n fedrus ar bapur, yn dangos diffyg geirfa a hyblygrwydd mewn ymateb llafar. Maent oll yn cymryd rhan mewn gwaith grŵp ac yn gwrando'n dda.

Mae darllen ystod o awduron ac arddulliau wedi ei sefydlu'n dda. Mae disgyblion yn darllen ar goedd y gywir gyda goslef dda. Mae darllen am wybodaeth yn gadarn; mae technegau arnodi testun yn dda. Cyfyng yw ystod y llyfrau y mae nifer arwyddocaol o fechgyn yn eu darllen.

Mae disgyblion yn hollol ymwybodol o'r dyfeisiau a ddefnyddia awduron a gallant yn aml eu hefelychu yn effeithiol yn eu delweddau eu hunain. Gallant oll wahaniaethu rhwng cyweiriau. Maent yn llai effeithiol wrth archwilio themâu cerddi a mynegi barn ar ddarn ysgrifenedig. Gallant adrodd dilyniant digwyddiadau, archwilio cymhelliant cymeriadau ac ysgrifennu o'u safbwynt hwy. Defnyddir dyfyniadau addas, er nad ydynt bob amser wedi eu hymgorffori'n briodol yn y gwaith, nac wedi eu gosod allan yn gywir.

Yn B12 a B13, mae safonau ysgrifennu a darllen yn dda, tra fo safonau llafar yn foddhaol.

Mae myfyrwyr B12 yn ymateb mewn dull meddylgar ac ystyriol, ond yn llai parod i herio, procio a chynnig barn amgen. Mae'r arnodi testun yn cynnwys gormod o ailadrodd sylwadau'r athrawon, air am air. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o ffurfiau llenyddol. Yn B13, mae ymatebion yn araf yn dod, yn gyffredinol gywir, ond yn fyr. Dengys y gwaith ysgrifenedig beth geirfa feirniadol effeithiol, er, ar adegau, caiff ei hesgeuluso neu heb ei defnyddio'n briodol. Gall y myfyrwyr ddadansoddi'n fanwl, dod i gasgliadau ac eglurebu gyda pheth effeithiolrwydd.

**Mathemateg**

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA3, yn foddhaol yn CA4, ac yn dda yn B12 a B13.

Roedd canlyniadau profion diwedd CA3 yn 2001 ychydig yn uwch na'r canlyniadau ar gyfer yr AALl, a hefyd y cyfartaledd cenedlaethol. Dros y tair blynedd diwethaf, bu cynnydd yn y canran o ddisgyblion a gyrhaeddodd lefel 5 neu uwch ym mhrofion statudol y CC. Roedd cyflawniad y merched llawer yn uwch na'r bechgyn ym mhrofion 2001. Yn CA4, roedd canlyniadau TGAU 2001 hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr AALl a Chymru o ran y disgyblion a gafodd graddau A*-C, ac maent wedi cynyddu'n sylweddol ar gyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf. Roedd y canran a lwyddodd i ennill gradd TGAU A*-G fodd bynnag yn isel mewn cymhariaeth â chyfartaledd yr AALl a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae canlyniadau arholiadau allanol B12 a B13 yn dda.

Yn CA3, mae gwaith rhif y disgyblion yn dda. Maent yn deall sut i gyfrifo rhannau ffracsiynol a chanrannol o feintiau a mesuriadau ac yn gallu defnyddio'r cywerthedd rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Mae'r disgyblion yn rhugl wrth gyfrifiadu yn y pen a chyfrifiadu'n ysgrifenedig, er fod rhai yn cael trafferth dwyn ffeithiau rhif i gof yn sydyn. Maent yn gallu defnyddio cyfrifiannell yn fedrus lle bo'n briodol. Mae safonau algebra yn dda gyda'r disgyblion yn gallu llunio a defnyddio fformiwlâu syml. Deallant sut i ddatrys hafaliadau drwy gynnig a gwella, datrys hafaliadau llinol cydamserol, ac yn gallu ehangu cromfachau yn gywir. Mae gwaith siâp, gofod a mesur yn dda. Gall y disgyblion drosi o un uned fetrig i un arall, ac maent yn gallu gwneud amcangyfrifon synhwyrol o fesuriadau mewn sefyllfaoedd bob-dydd. Mae rhai yn ansicr o gywerthedd bras unedau metrig â'r unedau Imperial sy'n dal i gael eu defnyddio'n ddyddiol. Gallant fesur yn gywir a defnyddio'r unedau cywir i nodi eu mesuriadau. Defnyddiant fformiwlâu priodol i ddarganfod cylchedd ac arwynebedd cylchoedd. Mae gwybodaeth y disgyblion am drin data yn dda ac maent yn dehongli gwybodaeth ystadegol yn synhwyrol. Gallant lunio diagramau amlder a siartiau cylch a thynnu casgliadau cywir o'r data. Mae gallu'r disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso mathemateg yn amrywio o'r boddhaol i'r da iawn.

Yn CA4, mae'r disgyblion o allu uchel yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ond boddhaol yw safonau cyflawniad y disgyblion o allu canolig ar draws y targedau cyrhaeddiad. Mae'r disgyblion o allu uchel yn deall ac yn defnyddio rhifau cymarebol ac anghymarebol ac yn gallu datrys problemau sy'n cynnwys cyfrifo gyda phwerau a rhifau a fynegir ar ffurf safonol. Gall y disgyblion frasamcanu ac maent yn deall sut a phryd i amcangyfrif. Mae nifer o ddisgyblion o allu canolig yn araf yn dwyn ffeithiau rhif i gof, ac ar adegau yn gwneud defnydd amhriodol o'r gyfrifiannell. Mewn algebra, mae'r disgyblion yn gallu darganfod a disgrifio mewn symbolau $n^{fed}$ term dilyniant. Gall y rhai o allu uchel ddefnyddio rheolau indecsau yn gywir a hefyd enrhifo fformiwlâu algebraidd, gan amnewid ffracsiynau a rhifau negatif. Mae rhai disgyblion yn methu dwyn i gof ffeithiau a phrosesau yn ddigon cywir i ddatrys problemau. Yn eu gwaith siâp, gofod a mesur, mae'r disgyblion yn deall sut i ddefnyddio priodweddau ongl a phriodweddau cymesuredd polygonau er mwyn datrys problemau. Ceir diffyg cynnydd gan rhai disgyblion oherwydd nad ydynt yn gallu dwyn i gof gwaith blaenorol ar siapiau. Mae gallu'r disgyblion i gasglu data a'i gynrychioli mewn amrywiol ffyrdd yn dda. Maent yn dehongli ystadegau drwy ystyried modd, canolrif, cymedr ac amrediad setiau o ddata sydd wedi'u grwpio. Gall disgyblion o allu uchel ddeall sut i gymhwyso dulliau ar gyfer cyfrifo tebygolrwydd digwyddiadau cyfansawdd. Oherwydd diffyg dwyn i gof ffeithiau rhif, mae rhai o allu canolig yn methu cael atebion cywir er eu bod yn deall cysyniadau tebygolrwydd. Mae rhai o ddisgyblion CA4 yn amharod i weithio'n annibynnol.

Mae safon cyflawniad myfyrwyr B12 a B13 yn dda, gyda B13 ychydig yn well na B12. Maent yn deall cysyniadau ac egwyddorion mathemategol, ac yn gallu dewis technegau addas i ddatrys problemau drwy ymresymu rhesymegol a defnyddio medrau mathemategol cywir.

Yn CA3 a CA4, mae'r disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau uchel cyfatebol.

**Gwyddoniaeth**

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA3 ac yn foddhaol yn CA4; maent yn dda mewn bywydeg a ffiseg yn B12 a B13 ac yn foddhaol mewn cemeg.

Yn 2001, cafwyd canlyniadau profion gwell yn CA3, gyda'r canran o ddisgyblion yn cyrraedd lefel 5 neu well yn uwch na chanrannau'r AALl ac yn debyg i'r rhai ar gyfer Cymru. Yn arholiadau TGAU 2001, roedd y perfformiad yn is nag un yr AALl a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn B7, mae safonau ar draws yr ystod gallu yn dda. Gwna'r disgyblion gynnydd da gan adeiladu ar y gwaith a wnaed yn yr ysgol gynradd. Maent yn ymateb yn dda, a chyda brwdfrydedd, i holi o ansawdd da, ac mae eu hymatebion yn dangos eu bod yn meddwl yn ofalus am y gwaith a wnânt. Mae mwy o amrywiaeth yn B8 a B9; gall y disgyblion mwyaf galluog feddwl, rhesymu a chynnig esboniadau clir. Mewn rhai gwersi, fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu oherwydd fod y gwaith a osodir iddynt yn gofyn gormod ganddynt a chânt hi'n anodd i ymateb i'r tasgau. Mae hyn yn arbennig o wir mewn gwersi ar ddeunyddiau a'u priodweddau.

Yn CA3, mae medrau arbrofol ac ymchwiliol y disgyblion yn dda gan mwyaf. Gallant gynllunio'n annibynnol mewn parau a grwpiau bach. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu adnabod y prif ffactorau mewn ymchwiliad a dangosant ddealltwriaeth dda o brofi teg. Medrant ddefnyddio ystod o offer mesur yn gywir a cheir defnydd cywir yn gyffredinol o unedau mesur.

Llunnir tablau yn dda ac mae'r disgyblion mwyaf galluog yn deall yr angen i ailgymryd darlleniadau. Amrywia gwaith graff o anfoddhaol i dda. Ni all nifer arwyddocaol o ddisgyblion B7 a B8 ddewis y graff priodol i arddangos data. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau o'u canlyniadau ac yn cefnogi'r casgliad gyda gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol berthnasol. Mae medrau arfarnu'r disgyblion yn datblygu'n briodol.

Yn CA4, mae safonau yn dda mewn ffiseg ar draws yr ystod gallu. Cyflawnir safonau da hefyd gan y rhai mwyaf galluog mewn bywydeg a chan y grŵp AAA yn B10. Mewn cemeg ac yn y grwpiau canolig eu gallu mewn bywydeg, cyflawnir safonau boddhaol. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o gysyniadau gwyddonol mewn ffiseg a gallant resymu yn wyddonol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gysyniadau haniaethol a gallant ddefnyddio modelau haniaethol yn eu hesboniadau. Deellir cysyniadau bywydegol yn yr un mor dda gan y disgyblion galluocaf mewn bywydeg, ond mewn cemeg ceir llai o ddisgyblion sy'n gallu trafod eu gwaith yn hyderus a chymhwyso'u gwybodaeth i sefyllfaoedd newydd. Mewn rhai gwersi, rôl oddefol sydd i ddisgyblion canolig eu gallu ac nid ydynt yn mynd i'r afael â'r gwaith. Wrth wneud gwaith ymarferol, nid ydynt yn glir ynglŷn â phwrpas y tasgau, ac ychydig a gyflawnant.

Cynhyrchir gwaith cwrs o ansawdd da ar gyfer TGAU, sy'n dangos dilyniant da o'r gwaith ymchwiliol a wnaed yn CA3.

Drwy'r ysgol, ar wahân i'r grwpiau canolig eu gallu yn CA4, dengys y disgyblion fedrau gwrando da. Gwrandawant gyda dealltwriaeth ar eu hathrawon ac ar ei gilydd wrth weithio mewn parau ac mewn grwpiau. Mae medrau llafar yn amrywio o foddhaol i dda. Mewn tua hanner y gwersi, gwna'r disgyblion gyfraniadau buddiol i drafodaethau dosbarth a mynegant eu hunain yn rhugl wrth ymateb i holi. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen-ar-goedd yn eglur ond cânt fwy o anhawster wrth sganio a chrynhoi testun. Mae medrau darllen yn gyffredinol dda a cheir defnydd da o derminoleg wyddonol. Mae TGCh yn dechrau cael ei integreiddio i'r cwricwlwm, yn bennaf drwy

ddefnyddio synwyryddion a data gofnodwyr.  Boddhaol yn unig yw safonau ar hyn o bryd oherwydd yr ystod cyfyngedig o dasgau.

Yn B12 a B13, mae safonau yn dda mewn bywydeg a ffiseg.  Maent yn dda mewn cemeg yn B13 ond yn foddhaol yn B12.  Mewn bywydeg, dan arweiniad gofalus yr athro, gweithia'r myfyrwyr yn galed i gyflawni hyd eithaf eu gallu.  Dangosant alluoedd adalw da a gallant gymhwyso eu gwybodaeth.  Cyflawnir gwaith ymarferol yn effeithiol i safon dda. Yn B12, mewn cemeg, ysgrifenna'r myfyrwyr hafaliadau gyda chydbwysedd ac eglurant egwyddorion cemeg ffisegol. Mae diffyg gofal wrth gynllunio gwaith arbrofol a thuedda i fod yn arwynebol. Yn B13, mewn cemeg, ceidw'r myfyrwyr gofnod manwl o'u gwaith.  Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau dosbarth a gwaith ymchwiliol a gyflawnir i safon dda.  Mae safonau mewn ffiseg yn gyson dda yn holl agweddau'r gwaith ac mae'r myfyrwyr yn hyderus wrth gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth pynciol.  Mae medrau ymarferol wedi eu datblygu i safon dda a defnyddir TGC yn briodol i gynnal y gwaith.

## Cymraeg (ail iaith)

Mae safonau'n dda yn CA3 a CA4.

Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn deall amrediad eang o iaith.  Defnyddiant nifer dda o gystrawennau sylfaenol yn gywir wrth ateb cwestiynau.  Gall lleiafrif arwyddocaol gynnig sylwadau byr a pherthnasol yn ddigymell.  Gydag ambell eithriad yn achos hwyr ddyfodiaid, mae ansawdd ynganu a goslefu yn dda.

Erbyn CA4, gall nifer dda o ddisgyblion gynnig sylwadau estynedig ac eithaf cymhleth, gan amlygu gafael sicr ar gystrawen a geirfa eang.  Yn B11, boddhaol yw safon y cydadweithio rhwng disgyblion unigol mewn parau wrth drafod testun penodol.  Mae rhai unigolion yn ddihyder a di-ddweud, ac amlyga ambell un agwedd negyddol.

Ar y cyfan, gall y disgyblion ddarllen testunau addas yn synhwyrol a chyda mynegiant priodol. Bydd ambell unigolyn yn darllen llyfrau heriol yn rhugl ac yn cael boddhad a phleser wrth ddarllen o'u gwirfodd.

Yn CA3, mae'r disgyblion yn cynhyrchu amrediad eang o waith ysgrifenedig.  Gallant fynegi barn yn syml ac mae cynnwys eu gwaith yn aml yn ddiddorol.  Er gwaethaf sillafu gwallus ac ambell idiom Saesneg, mae gan ddisgyblion CA4 afael dda ar gystrawen a geirfa briodol.  Er hynny, mae'r pwyslais ar ateb cwestiynau gosodedig yn cyfyngu rhyw gymaint ar swm y gwaith ysgrifennu rhydd a gynhyrchant.

## Dylunio a Thechnoleg

Mae safonau'n dda yn CA3, CA4 ac yn B12 a B13.

Yn CA3, mae'r disgyblion yn cynllunio a chyflwyno ystod o brosiectau sy'n seiliedig ar ofynion y rhaglen astudio.  Maent yn mwynhau'r profiadau hyn; gallant berthnasu'n hyderus gyda'r cyd-destunau a derbyn yr her a osodir iddynt mewn rhai prosiectau.  Maent yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag ystod o ddeunyddiau a phrosesau ar draws y cyfnod allweddol, sy'n eu galluogi i gyflawni gwaith dylunio a gwneud yn llwyddiannus. Mae safon y gwaith ymarferol yn dda.  Cyflawna'r disgyblion y gwaith yn gelfydd a chynhyrchant eitemau gorffenedig safonol sy'n

cwrdd ag anghenion penodol. Ar y cyfan, rhoddant sylw dyledus i ofynion iechyd a diogelwch wrth gyflawni gwaith ymarferol. Mae’r disgyblion yn cymryd cyfrifioldeb am eu gwaith eu hunain ac yn gallu gweithio’n annibynnol. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau yn dda. Yn B8, mewn tecstilau, mae’r goreuon yn cyflawni gwaith arbennig o dda. Mae’r gwaith TGCh, sef y defnydd o’r Rhyngrwyd, cyflwyno gwybodaeth drwy eiriau a lluniau a’r gwaith CAD, yn ymestyn y safonau.

Mae’r unedau bwyd wedi eu datblygu yn arbennig o dda i ateb gofynion y rhaglen astudio. Ar draws y blynyddoedd, mae’r disgyblion yn elwa o’r cysylltiadau gyda byd gwaith. Elwant lawer o’r profiadau TGCh, y defnydd o’r Rhyngrwyd, labelu bwyd, y camera digidol a dadansoddi maeth.

Yn yr unedau deunyddiau gwrthiannol, mae’r gwaith ymarferol yn dda ar draws y blynyddoedd. Mae’r gweithgareddau CAD/CAM a rheoli yn atgyfnerthu’r profiadau a’r safonau hyn. Mae’r ffolios dylunio yn dda, yn arbennig yn B9. Mae cyflwyniad y gwaith yn lan ac yn drefnus. Mae’r disgyblion yn ymchwilio’n bwrpasol, yn creu manylebion penodol, yn cynhyrchu syniadau realistig ac yn cynllunio a gwerthuso’n fanwl. Mae safon y lluniadu’n dda a’r defnydd o liw yn effeithiol. Mae defnydd y disgyblion o dermau arbenigol yn dda, a gwnânt ddefnydd da a phriodol o ystod o offer arbenigol i fesur, marcio a thorri yn gywir.

Yn CA4, yn y cwrs TGAU dylunio a thechnoleg deunyddiau gwrthiannol, mae’r safonau yn dda. Mae’r disgyblion yn cyflawni prosesau ymarferol yn dda trwy amrywiol prosiectau a chyd-destunau sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn gweithio’n gyfrifol ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Cymerant bwyll a gofal wrth baratoi, adeiladu a gorffennu eitemau defnyddiol i gwrdd ag anghenion penodol. Mae safon y gwaith gorffenedig yn dda. Yn y ffolios, mae gwaith da sy’n arwyddo datblygiad pendant yn y safonau yn ystod y ddwy flynedd. Mae’r cofnodion manwl o weithio trwy brosesau dylunio a gwneud yn dangos dealltwriaeth glir o’r hyn sydd angen ei gyflawni yn y prosiectau. Mae’r gwaith CAD/CAM yn cefnogi ac yn ymestyn y gwaith ymhellach. Medda’r disgyblion ar wybodaeth a dealltwriaeth dda am ddeunyddiau a phrosesau a llwyddant i gymhwyso y rhain i’w gwaith ymarferol.

Bu canlyniadau arholiadau allanol y pwnc hwn yn gyson dda dros y blynyddoedd, ac yn dda iawn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Yn B12 a B13, mae’r safonau yn dda yn y cyrsiau Safon Uwch ac UG. Mae’r myfyrwyr yn ymagweddu’n aeddfed ac yn gyfrifol at eu gwaith. Maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus, yn mwynhau y profiadau ac yn ymateb i’r her a osodir iddynt yn y prosiectau. Meddant ar ddealltwriaeth dda o ofynion prosesau dylunio a gwneud, ac amlygir creadigrwydd yng ngwaith y goreuon. Cyflawnant dechnegau ymarferol yn hyderus ac yn gelfydd. Llunia’r myfyrwyr gynhyrchion defnyddiol o safon uchel sy’n cwrdd ag anghenion penodol. Mae’r gwaith modelu, trwy amrywiol ddeunyddiau a thechnegau, yn cyfrannu’n fawr at y safonau hyn. Mae’r ffolios dylunio yn gyffredinol dda, gyda enghreifftiau unigol arbennig o dda. Ynddynt, ceir cofnodion manwl o weithio trwy brosesau dylunio. Mae myfyrwyr yn dadansoddi yn ystyrlon, yn cyflawni gwaith ymchwil pwrpasol, ac fel canlyniad yn cynhyrchu nifer o syniadau perthnasol ac yn eu datblygu mewn dyfnder. Mae’r cynllunio’r gwneud a’r gwerthuso yn drylwyr. Gwelir datblygiad da yn y medrau graffeg a’r defnydd o liw yn ystod y ddwy flynedd. Mae’r astudiaethau achos yn hynod o drylwyr. Ymateba’r myfyrwyr yn dda i’r gwaith theori.

**Technoleg Gwybodaeth**

Mae safonau’n anfoddhaol yn CA3.

Yn B7, lle ceir gwersi ffurfiol, mae safon y gwaith yn dda ar draws ystod o fedrau. Yma, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o dermau technegol cyfrifiaduron a hefyd o reolau iechyd a diogelwch mewn ystafell gyfrifiadurol. Gan nad oes adeiladu bwriadus yn dilyn ar lefel medrau'r disgyblion a'u dealltwriaeth o gysyniadau cyfrifiadurol, mae safonau'n anfoddhaol erbyn diwedd y cyfnod allweddol.

Serch hynny, gwna'r disgyblion waith da ar gyfleu gwybodaeth. Cynhyrchant gyhoeddiadau amrywiol sy'n cynnwys clipluniau, lluniau, animeiddiadau, sain a thestun wedi eu mewnfudo, ac yn aml gallant eu cyflwyno yn gelfydd i gynulleidfa. Mae enghreifftiau unigol o waith da iawn yn B7, a hefyd mewn nifer dda o bynciau, gan gynnwys y Gymraeg yn B8 a B9.

Mae safon modelu gyda thaenlen yn anfoddhaol. Gall y disgyblion lenwi taenlenni a'u defnyddio i gofnodi data rhifol ac i lunio graffiau, ond prin iawn yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn defnyddio taenlen i fodelu a rhagfynegi a llunio fformwlâu cymhleth yn gywir. Nid yw'r disgyblion yn deall yr egwyddorion a'r cysyniadau sydd y tu ôl i'r broses modelu gyda thaenlen.

Gall y disgyblion mewnoli data i ddata-bas, gan gynnwys rhai masnachol, a'u holi gan ddangos yr wybodaeth ar ffurf graff, ond elfennol yw ansawdd yr holi a'r dadansoddi cyfrifiadurol o ddata.

Mae'r disgyblion yn ymwybodol o ddefnydd o gyfrifiaduron drwy brofiad personol neu deuluol ond ni allant ddisgrifio nac arfarnu effeithiau mwyaf cyffredin cyfrifiaduron yn y gymdeithas yn eglur.

**Hanes**

Mae safonau yn foddhaol yn CA3, yn dda yn CA4 ac yn foddhaol yn B12 a B13.

Yn y blynyddoedd diwethaf, bu'r nifer yn sefyll TGAU ar gynnydd ac ers 1998, gydag un eithriad, bu'r canran o raddau A*- C yn llawer uwch na chyfartaleddau'r AALl a chenedlaethol. Yn Safon Uwch, dros yr un cyfnod, mae'r canlyniadau yn llai boddhaol; cymharol ychydig yw'r myfyrwyr a wnaethant y cynnydd a awgrymwyd ar sail eu perfformiad yn TGAU. Serch hynny, roedd canlyniadau arholiadau UG Ionawr 2002 yn dda.

Yn CA3, mae gan y disgyblion wybodaeth amlinellol dda o ddigwyddiadau a dealltwriaeth foddhaol o'r materion ehangach. Datblygant ymwybyddiaeth gronolegol foddhaol a gafael dda o achosiad a deilliannau perthynol. Mae eu hamgyffred o ystod o dystiolaeth hanesyddol yn dda. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn B9 yn dechrau cynnal ymholiad hanesyddol annibynnol; ond, drwodd a thro, nid yw hyn i raddau helaeth wedi ei ddatblygu yn ddigonol. Mae'r gwaith sy'n ymwneud â dehongliadau o hanes yn anfoddhaol. Yn aml, caiff y disgyblion hi'n anodd i dderbyn nad yw un fersiwn o ddigwyddiadau yn ddigonol. Nid yw'r dyraniad amser ar gyfer dosbarthiadau B8 yn caniatáu iddynt archwilio topigau yn y dyfnder sy'n ofynnol gan y CC.

Yn CA4, mae gan gyfran dda o ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda. Ceir gwaith arbennig o dda mewn rhai agweddau o hanes UDA ac yn y gwaith cwrs ar hanes Cymru. Mae llawer o'r disgyblion yn fedrus wrth ddeall ac arfarnu ffynonellau ac mae'r mwy galluog yn dechrau defnyddio'r rhain fel sail ar gyfer datblygu dehongliadau lletach. Fodd bynnag, mae ansawdd y gwaith, drwodd a thro, yn amrywio. Dealla'r disgyblion natur tystiolaeth hanesyddol, ond maent yn llai sicr o'r rhesymau am ddehongliadau gwahanol o'r gorffennol.

Yn B12 a B13, mae gan y myfyrwyr wybodaeth amlinellol boddhaol ac maent yn datblygu mewnwelediadau mwy manwl o'r topigau a astudiant ar hyn o bryd. Cyflawnant hefyd beth ymchwil cefndirol. Yn gyffredinol, caiff y myfyrwyr beth anhawster wrth arfarnu a dadansoddi

amrywiaeth o ffynonellau ac wrth gymhwyso'r rhain i wybodaeth gefndirol, er mwyn cynnig lefelau priodol o arfarnu a dadansoddi. Cyfyngir arfarnu ffynonellau yn ormodol i ddealltwriaeth ohonynt. Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn dda, ond mae ysgrifennu ymestynnol yn aml yn brin o'r dyfnder a'r dadansoddiad gofynnol. Mae gwaith llafar y myfyrwyr yn anfoddhaol; maent yn amharod iawn i gynnig syniadau a mynegi barn ac ychydig yw'r cyfraniadau â chanddynt ddyfnder neu eglurder.

### Daearyddiaeth

Mae safonau cyflawniad yn foddhaol yn CA3 a B12 a B13; maent yn dda yn CA4.

Yn 2000 a 2001, roedd canlyniadau TGAU yn cyfateb mwy neu lai i'r normau cenedlaethol. Gwelwyd cynnydd yn nghanran yr ymgeiswyr a enillodd raddau A*-C. Ychydig oedd nifer ymgeiswyr Safon Uwch ac Uwch Atodol neu Uwch Gyfrannol, ac roedd y canlyniadau yn foddhaol.

Mae safonau CA3 yn foddhaol ym mhob blwyddyn. Mae gan ddisgyblion B7 wybodaeth dda o fedrau map a dealltwriaeth dda o brosesau sylfaenol gweithgaredd afonydd. Ceir enghreifftiau o ysgrifennu estynedig a dychmygus caboledig, wedi eu cyflwyno'n dda drwy ddefnyddio cyfrifiaduron. Mae'r disgyblion lleiaf galluog yn cael trafferth i ddeall cysyniadau ffisegol ar adegau. Nid ydynt yn gallu perthnasu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd â phrofiadau y tu allan i furiau'r ysgol. Mae gan ddisgyblion B8/B9 ymdeimlad da o lefydd drwy gyfuno gwaith dosbarth â thaith dramor ac o ganlyniad gallant ddefnyddio'r termau pynciol perthnasol i wahaniaethu rhwng rhanbarth a rhanbarth. Dônt i ddeall sut mae hinsawdd a thirwedd yn gallu effeithio ar fywyd beunyddiol pobl. Mae'r goreuon yn gallu mynegi barn yn groyw a chyson. Yn B9, defnyddia'r disgyblion eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o batrymau a phrosesau ar wahanol raddfeydd a chyd-destunau, drwy astudio peryglon naturiol megis llifogydd yn ardal y Bala, trychineb Aberfan, llosgfynyddoedd yr Eidal a daeargrynfâu ar draws y byd. Mae'r disgyblion canolig neu is eu gallu yn cael anhawster i gyfuno ar bapur yr holl wybodaeth a ddaw iddynt o wahanol ffynonellau, ac o ganlyniad mae gormod o waith heb ei gwblhau. Ar adegau, caiff rhai disgyblion canolig ac is eu gallu drafferth i ddefnyddio eu gwybodaeth mewn sefyllfaoedd newydd.

Yn CA4, mae safonau cyflawniad yn dda ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r disgyblion yn gallu crynhoi barn a dod i gasgliadau synhwyrol. Defnyddiant TGCh yn effeithiol i ddod o hyd i ffynonellau gwybodaeth ychwanegol ac i gynorthwyo gyda'r gwaith o drin, cyflwyno a dadansoddi tystiolaeth a gasglwyd yn ystod gwaith maes, fel y tirffurfiau rhewlifol yn Nant Ffrancon. Defnyddiant eirfa ddaearyddol i bwrpas a dangosant lefel uchel o ddiddordeb yn y gwaith. Maent yn llwyddo i arfarnu eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion is eu gallu yn dangos cynnydd pan seilir y gwaith ar astudiaethau enghreifftiol o leoedd go iawn.

Yn B12, mae nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio daearyddiaeth UG ar gynnydd ac maent yn adeiladu ar sylfaen gadarn o wybodaeth a gyflwynir yn CA4. Defnyddiant ystod o ffynonellau, gan gynnwys data a graffiau, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu crynhoi yn dda a dod i gasgliadau. Maent yn gallu cymharu ac esbonio'r gwahaniaethau rhwng gwledydd sydd ar wahanol gamau o ddatblygiad demograffig. Bychan yw'r nifer yn B13, ac er bod ganddynt ddealltwriaeth o ymholiad daearyddol, mae diffyg ymdrech ar eu rhan yn effeithio ar eu gallu i gasglu gwybodaeth ac ar eu dadansoddiad o dystiolaeth gynradd ac eilaidd. Nid ydynt yn awyddus i gyfrannu mewn trafodaethau dosbarth.

**Ieithoedd Modern Tramor**

Mae safonau Ffrangeg yn foddhaol drwy'r ysgol.

Yn 2000 a 2001, roedd canran y fintai disgyblion B11 yn sefyll arholiad TGAU yn arwyddocaol is na'r canran cenedlaethol; roedd canran yr ymgeiswyr a enillodd raddfeydd A*- C yn llawer uwch na'r canran cenedlaethol yn 2000 ac oddeutu'r un canran yn 2001. Yn 2000, roedd canlyniadau'r nifer fechan yr ymgeiswyr Safon Uwch yn foddhaol. Roedd canlyniadau Ffrangeg UG 2001 yn siomedig. Nid oedd ymgeiswyr safon uwch yn 2001.

Mae safonau gwaith llafar yn foddhaol yn CA3 ac yn CA4. Yn CA3, byr yw'r atebion ac amherir ar ddealltwriaeth lawn gan wallau. Mae'r disgyblion yn hapusach yn ateb nac yn gofyn cwestiynau. Er bod goreuon B9 a disgyblion TGAU B11 yn gallu ymateb yn estynedig, nid ydynt yn defnyddio'r holl ystod o amseroedd y ferf a chyfyngedig yw eu mynegiant o farn.

Mae safonau gwrando a darllen yn foddhaol yn CA3 a CA4. Gall y disgyblion ddilyn hanfodion darnau dilys o Ffrangeg mewn print, gan lais brodorol neu ar dâp, gan nodi'r prif bwyntiau a dadleuon. Defnyddiant eiriaduron ar adegau i'w cynorthwyo i ddeall ystyr geiriau printiedig. Mae safonau darllen-ar-goedd yn foddhaol yn CA3 a CA4. Annigonol yw darllen er mwyn pleser.

Mae gwaith ysgrifennu'r disgyblion yn foddhaol yn CA3 a B10, ac yn dda yn B11. Manteisiant ar fframiau ysgrifennu i gynhyrchu ymatebion hir, gan ddefnyddio ystod boddhaol o gystrawennau, geirfa briodol ac, ar adegau, mynegiant clir o farn. Amherir fodd bynnag ar ansawdd y gwaith, yn enwedig ymhlith y rhai canolig eu gallu, gan gamgymeriadau. Mae safon ysgrifennu yn y gwaith cwrs yn dda yn B11. Cwblha'r disgyblion y tasgau'n briodol gydag elfen dda o gywirdeb.

Mae safonau llafar yn foddhaol yn B12 a B13. Gall y myfyrwyr drafod themâu Safon Uwch neu UA. Gyda chymorth, maent yn mynegi a chyfiawnhau safbwyntiau. Llesteirir ansawdd eu gwaith gan ddiffyg geirfa a chystrawennau priodol.

Mae safonau gwrando a darllen yn foddhaol yn B12 a B13. Gall y myfyrwyr nodi llawer o'r prif bwyntiau. Llesteirir safon y gwaith gan ddiffyg geirfa weithredol a dealltwriaeth lawn o gystrawennau.

Mae safonau ysgrifennu yn foddhaol. Cynhyrcha'r myfyrwyr draethodau strwythuredig sy'n cynnwys syniadau boddhaol, ond amherir ar y safonau ysgrifenedig mewn amrywiol fathau o ysgrifennu gan gamgymeriadau gramadegol.

**Celf**

Mae safonau cyflawniad yn dda drwy'r ysgol.

Roedd canlyniadau TGAU yn dda yn 1999 a 2000. Fodd bynnag, roeddent o dan gyfartaledd yr AALl a Chymru yn 2001. Mae canlyniadau Safon Uwch ac UG yn gyson dda.

Yn CA3, cynhyrcha'r disgyblion waith o gymhlethdod cynyddol a gwnânt gynnydd da yn eu defnydd o liw, tôn, patrwm a siâp. Trafodant eu gwaith eu hunain yn hyderus a gallant nodi'r tebygrwydd mewn arddull i waith arlunwyr o gyfnodau a diwylliannau eraill. Mae'r disgyblion yn dewis a defnyddio ystod o adnoddau a deunyddiau yn hyderus; deallant gyfyngiadau rhai ohonynt a gallant adolygu ac addasu eu gwaith er mwyn cyflawni'r effeithiau a ddymunir. Ceir cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau dau a thri dimensiwn [2D a 3D] ac mae disgyblion yn deall y technegau a ddefnyddir mewn gwaith print, cerameg ac i gynhyrchu gwaith haniaethol. Fodd bynnag, bu'r cyfleoedd i ddatblygu'r defnydd o decstilau a graffeg gyfrifiadurol yn brin ar y lefel hon.

Yn CA4, dewisant yn hyderus enghraifft o waith arlunydd y maent yn ei hoffi a defnyddiant ef fel sail i gynhyrchu printiadau, peintiadau a gwaith 3D o safon dda. Ceir cydbwysedd priodol rhwng proses a chynnyrch. Gwneir defnydd da o lyfrau braslunio i gofnodi cynnydd ac i nodi gwaith arbrofol. Nodant ddelweddau o arsyllu ac o'u dychymyg a cheir enghreifftiau da o waith disgyblion sy'n defnyddio ystod o dechnegau gwneud marciau. Ni ddatblygwyd y defnydd o TGCh yn ddigonol.

Yn B12, mae myfyrwyr yn cyflawni safonau da iawn gan ddefnyddio ystod o gyfryngau priodol, gan gynnwys ffotograffiaeth a meddalwedd cyfrifiadurol. Mae myfyrwyr yn hyderus wrth astudio rhyngweithiadau rhwng technegau ac o ganlyniad yn cyflawni delweddau o ansawdd uchel. Yn B13, mae myfyrwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o waith arlunwyr eraill i ysbrydoli eu gwaith ymchwiliol.

**Cerddoriaeth**

Mae safonau cyflawniad yn foddhaol yn CA3, yn dda yn CA4 ac yn dda iawn yn B12 a B13.

Anwastad fu canlyniadau TGAU dros y ddwy flynedd diwethaf; roeddent yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2000 ond yn llawer is yn 2001. Dwy radd B ac un radd C oedd graddau ymgeiswyr Safon Uwch yn 2000. Ni fu ymgeiswyr yn 2001.

Er nad yw canu yn cael ei ymarfer yn rheolaidd yn CA3, roedd safon yr ychydig a glywyd yn ystod yr arolygiad yn foddhaol. Cana'r merched yn bersain a hyderus mewn unsain gan roddi sylw dyladwy i fanylder a mynegiant cerddorol, ond mae nifer o'r bechgyn yn ddihyder. Boddhaol yw safon perfformio offerynnol. Gall nifer dda o'r disgyblion chwarae amrywiol alawon fel unigolion gyda gradd dda o gywirdeb, ond nid ydynt mor sicr a phrofiadol wrth berfformio gyda'i gilydd mewn grwpiau. Er bod rhai disgyblion mwy abl yn creu ymdeimlad da o ensembl, caiff nifer o'r disgyblion eraill anhawster i gadw curiad cyson wrth gyd-berfformio.

Mae disgyblion CA4 yn gwneud cynnydd priodol yn eu perfformio lleisiol ac offerynnol a chyflawnant safonau da. Mae'r ddwy fyfyrwraig yn B12 a'r saith myfyriwr yn B13 yn berfformwyr abl a phrofiadol. Cyflawnant safonau da iawn.

Mae safonau cyfansoddi'n foddhaol yn CA3 a CA4 ac yn dda yn B12 a B13. Yn CA3, mae nifer o gyfansoddiadau melodig byr, gan gynnwys peth gwaith byrfyfyr, yn siapus ac yn dangos ymwybyddiaeth o strwythur. Cyfyng yw gallu a phrofiad y disgyblion o archwilio gwahanol ffynonellau sain a'u cyfuno mewn modd dychmygus. Yn CA4, gwna disgyblion B10 gynnydd da. Anwastad yw safon y gwaith yn B11. Dengys rhai cyfansoddiadau driniaeth gelfydd o'r deunydd craidd, ac ymwybyddiaeth o strwythur, arddull a'r cyfrwng a ddewiswyd. Mae eraill yn fwy cyfyng eu diddordeb cerddorol ac ambell ddisgybl heb ddatblygu ei syniadau cychwynnol yn ddigonol hyd yn hyn. Adlewyrcha cyfansoddiadau myfyrwyr B12, sydd wedi eu seilio ar ddawnsfeydd Baróc, a gwaith corâl a phedwarawd llinynnol B13, ddealltwriaeth dda o dechnegau'r gwahanol arddulliau. Dengys cyfansoddiadau rhydd un myfyriwr yn B13 gryn wreiddioldeb a blaengaredd personol. Maent o safon uchel. Gwneir ychydig o ddefnydd o adnoddau TGCh yr adran i hyrwyddo gwaith cyfansoddi gan rai yn CA4 a B12 a B13.

Mae safon gwerthuso cerddoriaeth yn foddhaol yn CA3, yn dda yn CA4 ac yn dda iawn yn B12 a B13. Drwy ganolbwyntio eu gwrando, gall disgyblion CA3 ganfod gwahanol offerynnau a nodweddion cerddorol mewn amrywiol ddyfyniadau o gerddoriaeth wedi ei recordio. Dangosant ymwybyddiaeth foddhaol o wahanol elfennau cerddorol. Nid yw eu gallu i werthuso'r ymdriniaeth o'r elfennau hyn yn eu cerddora eu hunain wedi ei ddatblygu cystal. Llwydda nifer dda o'r

disgyblion yn CA4 i ganfod nodweddion technegol a mynegiannol mewn dyfyniadau o gerddoriaeth o amrediad o arddulliau a chyfnodau. Mae gwaith cwrs B12 a thraethodau B13, sydd yn aml o ansawdd da iawn, yn dangos ôl ymchwil ac ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r gerddoriaeth sy'n berthnasol i'w testunau dewisedig. Mae safon sain clust, er yn amrywio, yn dda ar y cyfan.

Gwelwyd gwelliant mewn safonau yn B12 a B13 ers yr arolygiad diwethaf. Cynigia'r cynllun gwaith cyfredol ar gyfer CA3, a baratowyd gan y pennaeth adran newydd, amrediad o brofiadau ysgogol i'r disgyblion a sail gadarn i sicrhau cynnydd a chodi safonau. Mae'r gwersi offerynnol, a ddarparwyd ar gyfer un o bob wyth o'r disgyblion ar gofrestr yr ysgol, a nifer o grwpiau allgyrsiol, sydd o safon dda ac yn aml da iawn, yn cyfoethogi gwaith yr adran. Cyfranna'r rhain yn sylweddol i fywyd yr ysgol a'r gymuned.

## Addysg gorfforol

Mae safonau cyflawniad yn CA3 yn foddhaol ac yn dda yn CA4. Mae safonau yn y cwrs arholiad yn B12 yn dda. Roedd canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn dda yn 2001.

Yn CA3, mae'r disgyblion yn frwdfrydig iawn ac yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon. Ymatebant yn dda yn y gweithgareddau cydlynnus sy'n ymestyn galluoedd y mwyafrif o'r disgyblion. Maent yn elwa o gynllunio da mewn gwersi ac yn datblygu medrau unigolyn a grŵp, dealltwriaeth a medrau corfforol. Yn B7 a B8, mae disgyblion, heb lawer o brofiad blaenorol, yn datblygu medrau sylfaenol mewn rygbi, pêl droed a phêl rwyd. Datblygant ddealltwriaeth o'u rôl o fewn y gêm er nad yw rheolaeth lwyr, ymwybyddiaeth o ofod a chwarae cefnogol wedi eu datblygu'n llawn. Yn B9, mae safon pêl rwyd a phêl droed yn dda ac mae'r disgyblion yn medru trin a thrafod yn hyderus ac ymateb yn ddeallus i arweiniad eu hathrawon.

Yn CA4, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn medrau corfforol, gwybodaeth a dealltwriaeth, a byddant ym mireinio ac ail adrodd symudiadau gyda mwy o reolaeth a chywirdeb. Cynlluniant waith cwrs TGAU yn ofalus, a datblyga disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at y gwaith. Cwblhânt waith ymarferol ac ysgrifenedig i safonau cyfatebol i'w gallu. Mewn gymnasteg, dengys y disgyblion ddealltwriaeth dda a gweithiant yn gorfforol galed. Nid yw tyndra corfforol a chynnal siâp wedi eu datblygu'n llawn bob amser ac mae peth anghysondeb yn y gwaith corfforol ac ysgrifenedig. Gwna'r disgyblion gynnydd da mewn dealltwriaeth a gwybodaeth o egwyddorion ffitrwydd ac ymarfer ac mae'r cyflwyniadau ar y cyfan yn daclus a chryno ac mae hyn i'w weld yn eu ffeiliau gwaith yn B10 a B11.

Mae'r disgyblion yn ymateb yn ymroddgar yn y ddau gyfnod allweddol a cheir cydweithio da bob amser. Ymateba'r disgyblion yn gadarnhaol i adborth adeiladol yr athrawon a cheir rhyngweithio da. Mae'r rhai o allu is yn elwa o addysgu sensitif ac yn gwneud cynnydd da.

Yn B12, mae'r myfyrwyr yn y cwrs arholiad yn ymateb yn aeddfed ac yn elwa o baratoi gofalus yr athrawon. Mae'r canlyniadau yn cyfateb i allu'r unigolion a cheir tystiolaeth dda o ymchwil bersonol ac ysgrifennu estynedig. Mae cyfle i'r myfyrwyr eraill yn B12 a B13 fynychu'r Ganolfan Hamdden ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i'r trefniant.

Cynhelir rhaglen estynedig o weithgareddau allgyrsiol o safon dda, yn cynnwys rhestr o gêmau cystadleuol; maent yn atgyfnerthu'r cwricwlwm. Mae'r ymateb yn frwdfrydig. Daw nifer o lwyddiannau unigol a thimau â llawer o glod i'r ysgol.

## Addysg grefyddol

Mae safonau'n gyson dda drwy'r ysgol.

Yn CA3, mae gan y disgyblion ar draws yr ystod gallu wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r unedau gwaith a astudir ac mae'r rhain yn adlewyrchu gofynion y maes llafur cytûn. Mae'r disgyblion yn datblygu gwybodaeth dda o sut a pham y mae credinwyr o grefyddau gwahanol yn addoli, myfyrio a dathlu eu ffydd. Mae ymweliadau i adeiladau y gwahanol grefyddau yn atgyfnerthu a dyfnhau eu gwybodaeth o'r gwahanol ffyrdd y mae credinwyr yn dathlu eu ffydd. Mewn trafodaeth dosbarth, mae'r disgyblion yn hyderus ac yn mynegi eu barn yn eglur. Maent yn datblygu y medrau o chwilio am wybodaeth, ei drefnu a'i gyflwyno mewn gwahanol fyrdd gan gynnwys peth defnydd o TGCh. Dangosant eu dealltwriaeth o destun drwy holi a chwestiynu ac mae'r mwyaf galluog yn ehangu'n sylweddol ar eu sylwadau. Integreiddir disgyblion ag AAA yn dda i'r dosbarthiadau, ac maent yn gwneud cynnydd da.

Yn CA4, mae'r disgyblion sy'n dilyn cwrs TGAU byr, yn ymateb yn ystyriol i faterion crefyddol a moesol a dangosant hyder wrth drafod eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain a rhai pobl eraill. Maent yn fodlon mynegi barn ac mae rhai ohonynt yn cynnig ymatebion estynedig a myfyriol. Awgrymant atebion i gwestiynau dyrys drwy gyfeirio at athrawiaeth grefyddol, lle bo hynny'n briodol.

Yn B12 a B13, dilyna'r myfyrwyr gwrs addas sy'n rhoi cyfleoedd da iddynt ddatblygu medrau archwilio a chyfathrebu wrth gyflwyno agweddau crefyddol, moesol a chymdeithasol cyfoes. Yn y gwersi a arsyllwyd yn ystod yr arolygiad cafwyd cyflwyniadau da gan y myfyrwyr, gan gynnig rhesymau dros eu barn a dangos parch tuag at gredoau a barn pobl eraill.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r safonau yn CA3 wedi gwella ac mae amser penodol, ynghyd â chwrs addas, wedi ei ddarparu ar gyfer addysg grefyddol statudol yn B12 a B13.

## Astudiaethau Crefyddol

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA4 ac yn B12 a B13.

Roedd canlyniadau'r TGAU yn dda yn 2001, ac yn adlewyrchu gwaith caled yr ymgeiswyr i gwblhau y cwrs mewn amser byr. Roedd canlyniadau TCA yn dda iawn.

Yn y cwrs TGAU, mae gan y disgyblion wybodaeth ffeithiol a dealltwriaeth dda o'r maes llafur. Maent yn meithrin ystod o fedrau sy'n eu galluogi i archwilio crefydd a phrofiadau dynol yn annibynnol. Maent yn ymateb yn gywir ar lafar, ac maent yn datblygu'r gallu i fynegi eu hunain yn briodol yn ysgrifenedig. Mae safon peth o'r gwaith ysgrifenedig gan ddisgyblion galluog yn dda iawn. Maent yn arddangos defnydd effeithiol o wybodaeth, a dehongli a chynllunio da. Mae'r adran yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'r amser addysgu sydd ganddynt. Fodd bynnag, nid yw'r amser a glustnodir i'r cwrs yn ddigonol. Mae'r disgyblion sy'n sefyll yr arholiad TCA yn dangos gwybodaeth dda o draddodiadau Cristnogol, ac o gymeriadau allweddol yn hanes crefyddau ac yn y cymunedau ffydd cyfredol.

Yn B12 a B13, mae gan y myfyrwyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r maes llafur, ac maent yn gallu eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau. Trafoda'r myfyrwyr faterion cymhleth ar lefel briodol. Maent yn meddu ar fedrau cadw nodiadau da ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig sy'n ddadansoddol, trefnus ac wedi ei seilio ar ystod da o gyfeiriadaeth.

**Addysg bersonol a chymdeithasol**

Mae'r safonau'n dda yn CA3 a CA4.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol wedi'i strwythuro a'i chynllunio'n effeithiol ar gyfer holl ddisgyblion B7-B11.

Trafoda'r disgyblion agweddau yn ymwneud â iechyd, a materion personol a chymdeithasol yn aeddfed, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Defnyddiant amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, megis erthyglau papurau newydd cyfoes a deunyddiau parod wrth arfarnu tystiolaeth cyn dod i farn. Pan gânt gyfle, gweithiant a thrafodant yn dda mewn parau a grwpiau. Gwrandawant ar eraill gan barchu eu barn. Maent yn deall pwysigrwydd cadw'n iach ac mae ganddynt wybodaeth dda am effeithiau meddygol ac ariannol ysmygu a chyffuriau. Maent yn dangos consýrn am eraill ac yn datblygu côd personol o foesoldeb ac ymddygiad. Dechreuant ddysgu bod yn gyfrifol am eu gweithredoedd a'r hyn sy'n debygol o ddigwydd iddynt wrth dorri rheolau cymdeithas Wrth gwblhau eu Cofnod Cyrhaeddiad, datblygant fedrau hunan-ddisgrifio a hunan-arfarnu yn dda mewn cydweithrediad â'u hathrawon, a dechreuant feithrin y ddawn o osod targedau personol amrywiol, er bod y rhain yn anwastad o ran eu disgwyliadau ac ansawdd. Dônt i adnabod eu cryfderau a'u gwendidau a gallant resymoli ac egluro eu dyheadau am y dyfodol yn dda. Dechreuant gynllunio eu hastudio personol a dysgant feithrin medrau dysgu. Dônt i ddeall pwysigrwydd trin arian, er mai elfennol yw ddealltwriaeth rhai ohonynt o'r cysyniadau mwy cymhleth. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am faterion yn ymwneud â gyrfaoedd gan gynnwys dewis cyrsiau priodol; maent yn deall pwrpas a phwysigrwydd CV.

**Astudiaethau Busnes**

Yn CA4, cynigir astudiaethau busnes CGCC canolradd (rhan 1). Yn B12 a B13, cynigir y cwrs llawn CGCC (canolradd), yn ogystal â chwrs astudiaethau busnes UG a Safon Uwch. Mae'r adran hefyd yn gyfrifol am Fenter yr Ifanc ac am redeg busnes Compost Tegid.

Yn y cyrsiau UG a Safon Uwch, mae'r safonau cyflawniad yn dda. Yn 2000 a 2001, roedd canlyniadau Safon Uwch yn well na chyfartaledd yr AALl a Chymru. Mae safonau cyflawniad a chanlyniadau'r arholiadau allanol ar y cwrs CGCC yn CA4 a B12 yn dda.

Ceir amrywiaeth mewn gallu yn y grwpiau CGCC; fodd bynnag, mae'r myfyrwyr bron i gyd yn ymateb yn dda i gwestiynau sylfaenol ar y nodweddion pwysig i'w hystyried wrth roi cyflwyniad llafar cyhoeddus.

Gall grŵp arwyddocaol o ddisgyblion gynnig ymateb da iawn wrth drafod problemau ymarferol rhedeg busnes, gan lwyddo i berthnasu'r wybodaeth i'r farchnad leol ac i'w profiadau hwy eu hunain o redeg cwmni Compost Tegid.

At ei gilydd, mae medrau rhif yn foddhaol a'r gallu i ddehongli data a graffiau yn amrywio o'r da i'r boddhaol. Yn gyffredinol, maent yn foddhaol. Mae cyfathrebu ar lafar a thrwy waith ysgrifenedig yn dda yn y Gymraeg ac yn foddhaol yn y Saesneg. Gwneir defnydd da o TGCh er mwyn ymchwilio, i wella cyflwyniad ac i ddadansoddi data. Gall y disgyblion hefyd gyfiawnhau eu dulliau o weithredu.

Yn y cwrs astudiaethau busnes UG a Safon Uwch, mae gan fyfyrwyr B12 wybodaeth a dealltwriaeth dda o gysyniadau marchnata, megis matrics Boston, a medrant gymhwyso'r theori i sefyllfaoedd real.

Gall y myfyrwyr drafod eu gwaith yn ddeallus, gan wneud defnydd da o dermau'r pwnc. Mae'r gwaith ysgrifenedig, a dadansoddi data a chyfrifon, yn dda ar y cyfan. Gwna'r myfyrwyr ddefnydd

da o'r Rhyngrwyd wrth chwilio am wybodaeth gyfredol a gweithiant yn effeithiol fel tîm wrth ddatrys problemau yn ymwneud â rhedeg mân fentrau. Mae natur y gweithgareddau a gyflawnwyd, yn arbennig yr ystod eang o ymweliadau diwydiannol a rhai cysylltiedig â mân fentrau a drefnir gan yr adran, yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r safonau da a gyflawnir.

Mae cynllunio gofalus a'r tasgau diddorol a heriol a osodir yn llwyddo i symbylu'r holl ddisgyblion a myfyrwyr, ac yn meithrin gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth dda o fyd busnes.

Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol yn yr adran ers yr adroddiad diwethaf trwy sefydlu'r cyrsiau CGCC a Safon Uwch yn llwyddiannus. Mae'r myfyrwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyrsiau galwedigaethol hyn ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a hyderus.

## Drama

Mae safonau'n dda yn CA3 a CA4.  Cyflawna rhai unigolion safonau da iawn.

O B7 ymlaen, gall y disgyblion baratoi sgriptiau o safon dda.  Gwyddant sut i osod sgript, gan gynnwys cyfeiriadau at gyfarwyddiadau llwyfan, a sut i ddefnyddio amrediad o dechnegau dramatig megis meim, monolog ac ôl-fflachiadau.  Wrth baratoi i berfformio'u sgriptiau, ânt ati i ymarfer yn ddisgybledig.  Er bod safonau perfformiad unigolion yn amrywio, mae'r mwyafrif helaeth yn gallu cyflwyno gwahanol gymeriadau a chreu naws y cyfnod.  Drwy'r cyfnod allweddol, datblyga gallu'r disgyblion i gydweithio'n effeithiol, gan fireinio a gwella'u cyflwyniad.  Yn ogystal, gallant arfarnu perfformiadau ei gilydd, gan ddefnyddio'r termau priodol.

Datblygir y gwaith ymhellach yn CA4 drwy fanylu mwy.  Wrth ddadansoddi a chyflwyno cymeriad, manyla'r disgyblion ar nodweddion megis osgo a symudiadau corfforol yn ogystal â'r gair llafar.  Ar brydiau, bydd unigolion yn methu â chynnal cymeriad ac yn llithro yn ôl i'w personoliaethau eu hunain.

Gwelir datblygiad sylweddol erbyn B11.  Mae'r mwyafrif helaeth o'r dosbarth yn symud a chydadweithio'n dda, gyda rhai unigolion a pharau yn perfformio'n dda iawn.  Gallant amseru'n dda a defnyddio seibiau yn effeithiol.  Llwyddant i fynd dan groen cymeriadau a'u cyfleu'n effeithiol iawn.  Yn ogystal, gallant gynnal cymeriad wrth newid grŵp a sefyllfa.  Cyflwynant luniau llonydd yn effeithiol ac mae eu gwaith byrfyfyr yn dda gydag enghreifftiau da iawn; mae ganddynt ymwybyddiaeth o gynulleidfa.  Mae perfformiad rhai unigolion yn fwy mecanyddol ac nid yw eu gwaith yn argyhoeddi i'r un graddau.

Mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn dda.  Yn B7, gallant sgriptio, darlunio cymeriadau a thrafod operâu sebon yn ddeallus.  Drwy CA3, mae'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o wahanol arddulliau dramatig.  Dadansoddant ddramâu a thrafodant nodweddion rhaglenni radio i safon foddhaol.

Gwelir datblygiad clir yn y gwaith ysgrifenedig yn CA4.  Dadansoddant gymeriadau'n fanylach a gallant drafod perthynas cymeriadau â'i gilydd yn effeithiol.  Bellach, mae'r sgriptiau a gyfansodda'r disgyblion yn ymestyn dros sawl golygfa; dadansoddant dechnegau dramatig ac adolygant ddramâu.  Mae tuedd ar brydiau i'r adolygiadau fod yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn arfarnol.  Erbyn B11, mae llawer o'r gwaith ysgrifenedig o'r radd flaenaf.  Mae'r disgyblion yn cadw dyddiaduron diddorol ac aeddfed; dadansoddant deimladau cymeriadau a'r modd i gyfleu hynny drwy ystum wyneb a symudiadau corfforol.  Mae'r monologau a'r ymsonau a gyfansoddant o safon dda, y gwaith cwrs yn aeddfed a deallus o ran cynnwys, a'r mynegiant yn goeth a chyfoethog.

**Economeg y Cartref – datblygiad plentyn (TGAU)**

Mae safonau'n dda.

Mae safon y gwaith ysgrifenedig yn dda. Mae disgyblion yn gosod targedau gwella tymhorol iddynt hwy eu hunain. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'r nodiadau a'r canllawiau defnyddiol a ddarperir iddynt ar gyfer gwahanol agweddau o'r cwrs. Mae rhai unigolion yn gwneud defnydd arbennig o dda o TGCh i wella cyflwyniad eu gwaith, ynghyd â'r defnydd o'r Rhyngrwyd i gasglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i'r gwaith. Mae'r ffolios yn lliwgar a graenus. Cyflawna'r disgyblion waith ymchwil perthnasol gan gynhyrchu a datblygu syniadau yn llwyddiannus. Mae ansawdd cynhyrchion y gwaith ymarferol yn amrywio; yn gyffredinol maent yn dda. Maent yn gynhyrchion syml, defnyddiol sy'n ateb angen penodol. Dengys y ffotograffau dystiolaeth o aseiniadau bwyd wedi eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn elwa o'r profiad a gânt drwy'r astudiaethau plant. Maent yn gwneud defnydd da o'r canllawiau manwl ac yn dod i adnabod y plant yn dda.

Mae canlyniadau arholiadau allanol yn y pwnc hwn yn dda; roedd canran graddau A*- C 2001 yn dipyn uwch na chanran 2000.

**Arlwyo (TGAU)**

Mae'r safonau yn dda.

O'r ychydig dystiolaeth o waith ymarferol a welwyd, roedd y gwaith yn safonol. Mae'r gwaith ysgrifenedig yn amrywio o'r boddhaol i'r da. Yn gyffredinol, mae'n dda. Mae'r goreuon yn llwyddo i gasglu a chymhwyso gwybodaeth i sefyllfaoedd ymarferol. Mae'r disgyblion yn dehongli aseiniadau ymarferol yn ystyrlon, yn cyfiawnhau dewisiadau, yn cynllunio'r gwneud, a threfnu'r gwaith yn arbennig o dda; mae'r gwerthuso'n hynod o drylwyr. Rhoddant sylw da i waith prisio gan ganolbwyntio ar gyfanswm cost a chost uned, ac mae'r elfen bwysig hon yn cyfrannu'n fawr at y safonau. Gwna'r disgyblion ddefnydd da o TGCh yn eu gwaith cwrs. Gallant drin testun a lluniau, defnyddio camera digidol, ac yn arbennig, gallant ddadansoddi gwerth maeth seigiau a phrydau o ddata-bas masnachol. Mae'r cofnodion profiad gwaith yn amrywio yn eu safon ond yn dda ar y cyfan. Cynllunia'r disgyblion y gwaith, ei gyflwyno yn hynod o drefnus, a chofnodant y gwaith yn fanwl. Mae'r disgyblion yn mwynhau ac yn elwa o'r profiadau gwerthfawr hyn ynghyd â'r cysylltiadau buddiol gyda lleoliadau gwaith yn yr ardal. Caiff y disgyblion fudd mawr o'r drefn sydd wedi ei sefydlu ar gyfer y cwrs a'r canllawiau gwaith defnyddiol a phriodol a ddarperir ar eu cyfer. Mae canlyniadau arholiadau allanol yn y pwnc hwn yn gadarn; roedd canran graddau A*- C 2000 yn dipyn uwch nag un 2001.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (UG)**

Darperir y cwrs UG ar gyfer B12 ac mae'r safonau'n dda. Mae gan y myfyrwyr afael dda ar egwyddorion y pwnc ac ymdriniant â'r rhaglen waith mewn modd dadansoddiadol a rhesymegol. Gallant ddethol a chymhwyso'r technegau priodol o fewn TGCh i ddatrys problemau ymarferol. Gallant normaleiddio data-bas a deallant egwyddorion data-bas cydberthynol a phwysigrwydd y maes allweddol wrth gysylltu elfennau o fewn data-bas. Deallant egwyddorion systemau gwarchod data ac effaith camddefnyddio data ar unigolion a'r gymdeithas. Trafodant gysyniadau'r pwnc yn hyderus a deallus, yn ysgrifenedig ac ar lafar. Cyfoethoga'r myfyrwyr eu gwaith ymchwil a safon eu gwaith cwrs trwy ddefnydd effeithiol o'r Rhyngrwyd a phecynnau meddalwedd masnachol.

**Iechyd a Gofal (TAGU)**

Yn y cwrs iechyd a gofal safon uwch galwedigaethol, mae safonau'n dda.

Dengys y myfyrwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plentyn ac effaith ysmygu ar iechyd y boblogaeth. Plethant i'r gwaith sefyllfaoedd y byd real a gwnânt ddefnydd effeithiol o brofiad gwaith, asiantau gofal ac ymweliadau ag ysgolion meithrin.

Mae'r myfyrwyr yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a chwblhânt aseiniadau i safon dda. Mae medrau cyfathrebu yn dda tra bod medrau rhifedd a TGCh yn foddhaol.

Mae'r asesu trylwyr, y cyngor synhwyrol, a'r drefn o osod targedau heriol yn hybu safonau da.

**Gwleidyddiaeth**

Mae safonau yn dda.

Dysgir gwleidyddiaeth yn B10 i grŵp bach o ddisgyblion â'i cymhellion ar y cyfan yn uchel. Mae ganddynt gryn ddiddordeb ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrannu'n barod i drafodaeth ddosbarth. Datblyga'r disgyblion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o faterion a digwyddiadau cyfoes. Symbylir hyn gan waith cartref wedi ei gynllunio'n dda a thrafodaethau dosbarth effeithiol i ddilyn. Defnyddia rhai eu gwybodaeth gefndirol yn dda i gyfoethogi cyfraniadau ymhellach, ond caiff eraill rai materion yn gymhleth a chânt eu drysu'n hawdd. Anogir disgyblion yn effeithiol i ystyried materion i'w pen draw a chyfranna llawer ohonynt waith meddylgar a deallus. Mae'r dosbarth yn cyflawni safonau da drwodd a thro, ond effeithir ar eu cynnydd weithiau gan brinder adnoddau a thasgau nad ydynt yn ddigon pen agored. Cyfynga'r rhain y posibilrwydd o gyflawni ymholiadau mwy annibynnol.

**Adeiladu (CGC)**

Mae safonau yn dda.

Mae disgyblion yn frwdfrydig wrth ddatblygu'r medrau mesur, torri, uno a gorffennu wrth gyflawni cyfres o gynhyrchion mewn coed. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o offer gwaith coed a dangosant ddealltwriaeth dda o agweddau iechyd a diogelwch y gwaith. Cadwant gofnodion manwl o'r gwaith a gyflawnant ac maent yn datblygu dirnadaeth o bwysigrwydd cynllunio da i lwyddiant eu prosiectau. Mae'r disgyblion yn cymryd cryn falchder yn eu gwaith a gwblheir i safon dda drwodd a thro.

**Amaethyddiaeth (CGC)**

Mae safonau yn dda iawn.

Datblygodd yr ysgol gwrs lefel 1 CGC mewn amaethyddiaeth gyffredinol, sydd ar gael i ddisgyblion CA4. Trefnir y cwrs hwn mewn partneriaeth gyda Choleg Llysfasi a chyflawnir y mwyafrif o'r agweddau ymarferol ar nifer o ffermydd lleol.

Datblyga'r disgyblion ystod o fedrau a galluoedd perthnasol i hwsmonaeth anifeiliaid a thechnegau sylfaenol ffermio. Maent yn frwdfrydig a gallant arddangos llawer o flaengaredd a dealltwriaeth

wrth ymwneud â gweithgareddau megis wyna, bwydo, glanhau a gweini moddion anifeiliaid. Mae'r disgyblion oll yn cadw cofnod manwl o'r medrau a'r galluoedd a gyflawnwyd, gan gynnwys cofnod ffotograffig o'r gweithgareddau a gwblhawyd. Mae'r berthynas rhwng pawb o fewn y gwahanol sefyllfaoedd dysgu yn dda iawn ac mae'r disgyblion yn gweithio yn dda fel tîm.

## 8. GWELLA'R YSGOL

### 8.1 Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

**Mater Allweddol 1**

- Llwyddodd yr ysgol i godi safonau cyflawniad y disgyblion mewn addysg gorfforol drwy'r ysgol.
- Bellach, mae un wers wythnosol mewn ABCh ar gyfer y grwpiau blwyddyn i gyd ac mae'r safonau a gyflawnwyd yn y gwersi hyn yn dda drwodd a thro. Defnyddir y sesiynau byr boreol ar gyfer tasgau mwy rheolaidd.

- Mae safonau TG yn anfoddhaol yn CA3. Mae safonau TGCh ar draws y cwricwlwm hefyd yn anfoddhaol drwy'r ysgol. Erys hwn yn fater allweddol o'r arolygiad diwethaf.

**Mater Allweddol 2**

Gwnaeth yr ysgol ymdrech dda i ymateb i broblemau ymddygiad gwael. I'r diben hwn, cyflwynwyd cyrsiau CGC mewn amaethyddiaeth ac adeiladu. Rhoddir amlygrwydd i'r cyrsiau hyn o fewn yr ysgol; mae grŵp bach o ddisgyblion oeddent gynt yn ddadrithiedig, erbyn hyn yn ymagweddu'n dda tuag at y gwaith.

**Mater Allweddol 3**

Mae nifer arwyddocaol o enghreifftiau lle'r addaswyd y gwaith i gyfarfod anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Cafwyd cynnydd yn y maes hwn.

Dadansoddir asesiadau allanol ar lefel ysgol ac adran, ond mae eu defnydd i hyrwyddo addysgu da o hyd heb ei ddatblygu.

**Mater Allweddol 4**

Ymatebodd yr ysgol yn briodol i'r angen i ddarparu cynhaliaeth i ddisgyblion â chanddynt broblemau emosiynol dwys. Darperir hyn gan y penaethiaid blwyddyn gydag arweiniad y swyddog lles. Cynhelir fforwm lles bob hanner tymor i drafod natur y gefnogaeth sydd ei hangen.

**Mater Allweddol 5**

Llwyddodd yr ysgol i wella presenoldeb disgyblion B10 a B11.

**Mater Allweddol 6**

Bellach, mae pedwar grŵp addysgu yn B7. Sylfaenir y grwpio ar gyflawniadau yn CA2 a'r cyfrwng a ddewisir; ystyrir hefyd ddeiliannau trafodaethau gyda rhieni ac athrawon cynradd. Mae'r grwpiau yn ddigon hyblyg i ganiatáu i ddisgyblion symud o un grŵp i un arall. Mae disgyblion B7 yn dangos cynnydd da.

**Mater Allweddol 7**

Dros y ddwy flynedd diwethaf, arsyllodd y pennaeth yr athrawon oll yn addysgu, eu gwerthuso a rhoi iddynt adborth yn unigol. Fodd bynnag, erys monitro darpariaeth bynciol a'i heffaith ar safonau heb ei ddatblygu'n ddigonol ac nid oes gan benaethiaid adrannau ddigon o ran yn y broses.

**Mater Allweddol 8**

Mae darparu addysg grefyddol i fyfyrwyr B12 yn golygu fod yr ysgol bellach yn cydymffurfio â gofynion statudol. Er bod camau wedi eu cymryd i ofalu bod bob grŵp o ddisgyblion yn rhan o addoliad dyddiol ar-y-cyd, ni chynhaliwyd cynulliad dosbarth mewn tri dosbarth yn ystod yr wythnos arolygu. Felly, fe erys hwn yn fater allweddol.

**Mater Allweddol 9**

Mae'r broses asesu trothwy cenedlaethol wedi disodli gwerthuso athrawon. Cafodd staff yr ysgol yr hyfforddiant priodol, a gweithredir y drefn.

**Mater Allweddol 10**

Rhoddwyd sylw i'r materion iechyd a diogelwch yr adroddwyd arnynt yn yr arolygiad diwethaf.

## 8.2 Materion allweddol i weithredu arnynt

Mae angen i'r ysgol:

- godi safonau mewn TG yn CA3;
- godi safonau yn y pynciau ac agweddau hynny sy'n foddhaol ar hyn o bryd trwy ddileu'r diffygion a nodir gan gynnal y safonau da, a lleihau'r gagendor rhwng canlyniadau bechgyn a merched sydd i'w weld yn yr asesiadau ac arholiadau allanol;
- barhau i ddatblygu'r drefn o hybu safonau yn y medrau allweddol, yn benodol trwy godi safonau mewn TGCh a safonau gwaith llafar;
- ffurfioli a chryfhau'r cyswllt rhwng y UDRh ac adrannau unigol;
- adeiladu ar y gweithdrefnau asesu ac arferion hunan-arfarnu da sydd eisoes yn bodoli mewn rhai adrannau a'u lledaenu ar draws yr ysgol;
- sicrhau bod y gofynion statudol ar gyfer addoliad dyddiol ar-y-cyd ar gyfer pob disgybl yn cael eu bodloni.

# ATODIAD

## Data'r ysgol

### A. Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r Ygol | Ysgol y Berwyn |

| | |
|---|---|
| Math | Cynhelir gan AALl/Cymuned |
| Ystod oedran y disgyblion | 11-18 |
| Cyfeiriad yr ysgol | Y BALA<br>Gwynedd |
| Côd-post | LL23 7EY |
| Rhif ffôn | 01678 520259 |

| | |
|---|---|
| Enw'r Pennaeth | Mr Geraint Owain |
| Dyddiad penodi | Ebrill 1993 |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Yr Awdurdod Priodol | Mr Dylan Edwards |
| Arolygydd Cofrestredig | Gareth Wyn Roberts |
| Dyddiad yr arolygiad | 4-16 Mawrth 2002; roedd 3 arolygwr yn yr ysgol 4-7 Mawrth a'r gweddill rhwng 11 a 16 Mawrth |

## B. Data a dangosyddion yr ysgol

| *Nifer y disgyblion yn mhob grŵp blwyddyn* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 | cyfanswm |
| Nifer y disgyblion | 90 | 73 | 62 | 82 | 75 | 30 | 20 | 433 |

| *Nifer yr athrawon* | | | |
|---|---|---|---|
| | Llawn-amser | Rhan-amser | Cyfartal ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 30 | 4 | 32.5 |

| *Gwybodaeth staffio* | |
|---|---|
| Cymhareb disgybl:athro, ac eithrio dosbarthiadau arbennig | 13.3:1 |
| Cymhareb cyswllt | 75.9% |
| Maint y dosbarthiadau ar gyfartaledd | 16 |

| *Canrannau presenoldeb yn ystod y tri thymor llawn cyn yr arolygiad* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 | Yr ysgol gyfan |
| Gwanwyn 2001 | 93.3 | 90.9 | 92.2 | 91.1 | 91.2 | 87.5 | 83 | 89.7 |
| Haf 2001 | 94.7 | 94.3 | 91.3 | 92.8 | 98.1 | 85.5 | 85 | 91.7 |
| Hydref 2001 | 94.8 | 95.2 | 95.3 | 93.8 | 87.7 | 94.0 | 91.9 | 93.2 |

| | |
|---|---|
| *Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis blaenorol* | 7 dros dro,1 yn barhaol |

## C. Canlyniadau asesiadau'r CC ac arholiadau cyhoeddus

| |
|---|
| Canlyniadau Asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol CA3 :2001 |
| Cyfanswm disgyblion B9: 68 |
| Canran y disgyblion ar bob lefel |

| | | | D | A | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8/EP |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SA | Asesiad | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 13 | 28 | 26 | 19 | 9 | 0 |
| | Athrawon | Cenedlaethol | 0 | 1 | 0 | 0 | 3 | 9 | 23 | 33 | 21 | 9 | 0 |
| | Prawf | Ysgol | 0 | 1 | - | - | - | 10 | 28 | 29 | 18 | 6 | - |
| | | Cenedlaethol | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 9 | 24 | 32 | 19 | 8 | 0 |
| CY | Asesiad | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 18 | 21 | 33 | 17 | 4 |
| | Athrawon | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 7 | 20 | 34 | 28 | 10 | 0 |
| | Prawf | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 18 | 32 | 29 | 14 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 6 | 24 | 35 | 26 | 9 | 0 |
| MA | Asesiad | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 9 | 22 | 26 | 24 | 17 | 0 |
| | Athrawon | Cenedlaethol | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 11 | 23 | 26 | 25 | 12 | 1 |
| | Prawf | Ysgol | 0 | 1 | - | - | - | 9 | 24 | 24 | 26 | 13 | - |
| | | Cenedlaethol | 0 | 6 | 0 | 0 | 0 | 9 | 22 | 23 | 25 | 13 | 0 |
| GW | Asesiad | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 12 | 37 | 28 | 21 | 1 | 0 |
| | Athrawon | Cenedlaethol | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 10 | 26 | 31 | 22 | 9 | 0 |
| | Prawf | Ysgol | 0 | 4 | - | - | - | 8 | 24 | 31 | 27 | 5 | - |
| | | Cenedlaethol | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 9 | 27 | 27 | 22 | 9 | 0 |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 5 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg | | | |
|---|---|---|---|
| yn ôl asesiad athrawon | | drwy brawf | |
| Yn yr ysgol: | 45 | Yn yr ysgol: | 53 |
| Yng Nghymru: | 49 | Yng Nghymru: | 46 |

D - Disgyblion sydd wedi'u heithrio o dan drefniadau statudol rhag rhan neu'r cyfan o'r Cwriwlwm Cenedlaethol
A - Disgyblion a fethodd â chofrestru lefel oherwydd absenoldeb
W - Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1
EP - Perfformiad Eithriadol, lle mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 yn perfformio uwchlaw lefel 8

**Cyraeddiadau TGAU, CLM(1) a chyraeddiadau Cyfatebol**

**Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2001: 85**
**Canran y disgyblion 15 oed:**

a gorfrestrwyd ar gyfer pum neu ragor o arholiaaddu

a enillodd TGAU a chymwysterau galwadigaethol sy'n cyfateb â phum TGAU neu ragor, gradd

Dangosydd Pynciau Craidd (2)

Sgôr bwyntiau TGAU/GNVQ gyfartalog am bob disgybl

| | TGAU neu gymhwyster cyfatebol | A* i C | A* i G | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol 2000/2001 | 79 | 54 | 79 | 36 | 39 |
| Ardal AALI 2000/2001 | 90 | 56 | 89 | 41 | 43 |
| Cymru 2000/2001 | 86 | 50 | 85 | 37 | 38 |
| Ysgol 99/00/01 | 87 | 54 | 87 | 33 | 41 |
| Ysgol 98/99/00 | 89 | 54 | 88 | 34 | 42 |

| | a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf un ELQ(1), TGAU cwrs byr, TGAU neu gymhwyster cyfatebol | a gofrestrwydd ar gyfer un TGAU neu ragor, neu gymhwyster cyfatebol | a enillodd TGAU a chymwysterau galwadigaethol sy'n cyfateb â un TGAU neu ragor, gradd A* i C | A* i G | a enillodd o leiaf un gradd TGAU cwrs byr, A* i G | dim TGAU neu gymhwyster graddegg cyfatebol | un ELQ(1) neu ragor yn unig | heb ennill TGAU, TGAU cwrs byr, ELQ(1) neu gymhwyster cyfatebol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol 2000/2001 | 93 | 91 | 84 | 89 | 11 | 11 | 2 | 8 |
| Ardal AALI 2000/2001 | 98 | 96 | 83 | 95 | 8 | 5 | 2 | 2 |
| Cymru 2000/2001 | 96 | 94 | 73 | 92 | 40 | 8 | 3 | 5 |
| Ysgol 99/00/01 | 97 | 96 | 84 | 96 | 28 | 4 | 1 | 3 |
| Ysgol 98/99/00 | 99 | 98 | 82 | 98 | 34 | 2 | 1 | 1 |

**Canlyniadau TGAU mewn pynciau dethol**

**Canran y disgyblion 15 oed:**

| | a gofrestrwyd ar gyfer unrhyw TGAU mewn | a enillodd gradd TGAU A* i C mewn | A* i G mewn | a gofrestrwyd ar gyfer unrhyw TGAU mewn | a enillodd gradd TGAU A* i C mewn | A* i G mewn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Saesneg (2)** | | | **Cymraeg (2)** | | |
| Ysgol 2000/2001 | 75 | 60 | 74 | 88 | 67 | 88 |
| Ardal AALI 2000/2001 | 92 | 55 | 91 | 92 | 68 | 92 |
| Cymru 2000/2001 | 89 | 54 | 88 | 61 | 35 | 60 |
| Ysgol 99/00/01 | 88 | 52 | 87 | 95 | 66 | 95 |
| Ysgol 98/99/00 | 93 | 50 | 92 | 98 | 62 | 98 |

| | a gofrestrwyd ar gyfer unrhyw TGAU mewn | a enillodd gradd TGAU A* i C mewn | A* i G mewn | a gofrestrwyd ar gyfer unrhyw TGAU mewn | a enillodd gradd TGAU A* i C mewn | A* i G mewn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mathemateg (2)** | | | **Gwyddoniaeth (2)** | | |
| Ysgol 2000/2001 | 84 | 51 | 82 | 87 | 45 | 86 |
| Ardal AALI 2000/2001 | 91 | 48 | 89 | 92 | 52 | 91 |
| Cymru 2000/2001 | 89 | 44 | 86 | 89 | 47 | 87 |
| Ysgol 99/00/01 | 93 | 42 | 92 | 94 | 54 | 93 |
| Ysgol 98/99/01 | 98 | 41 | 94 | 96 | 60 | 94 |

(1) Cymhwyster Lefel Mynediad TCA neu TA
(2) I gael gwybodaeth am ba feysydd llafur sydd wedi'u cynnwys ymhob maes pwnc gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd

**Cyraeddiadau TAG Safon, Uwch Atodol a GNVQ**

**Nifer y disgyblion 17 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2001: 29**
**Nifer y disgyblion 17 oed a gofrestrwydd am 2 neu ragor o arholiadau TAG Safon Uwch neu Uwch Atodol cyfatebol: 17**
**Nifer y disgyblion 17 oed a gofrestrwyd am 2 neu ragor o arholiadau TAG Safon Uwch, Uwch Atodol cyfatebol neu GNVQ yfatebol: 17**

| | Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrwyd am 2 neu ragor o arholiadau TAG Safon Uwch neu Uwch Atodol cyfatebol neu GNVQ cyfatebol a enillodd sgôr bwyntiau o (1) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0 | 1 i 4 | 5 i 9 | 10 i 14 | 15 i 19 | 20 i 24 | 25 i 29 | 30 neu ragor |
| Ysgol 2000/2001 | 0 | 6 | 24 | 29 | 12 | 6 | 18 | 6 |
| Ardal AALI 2000/2001 | 1 | 8 | 16 | 29 | 13 | 17 | 9 | 7 |
| Cymru 2000/2001 | 1 | 6 | 13 | 23 | 16 | 19 | 11 | 12 |

| | Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrwyd am 2 neu ragor o arholiadau TAG Safon Uwch, Uwch Atodol cyfatebol neu GNVQ cyfatebol a enillodd 2 neu ragor o Safonau Uwch neu gymwysterau cyfatebol ar graddau (1) | | Sgôr bwyntiau gyfartalog pob disgybl | |
|---|---|---|---|---|
| | A-C | A-E | a gofrestrwyd am 2 neu ragor o Safonau Uwch neu Uwch Atodol neu GNVQ cyfatebol | a gofrestrwyd am 2 neu ragor o Safonau Uwch neu Uwch cyfatedol |
| Ysgol 2000/2001 | 35 | 88 | 15 | 15 |
| Ardal AALI 2000/2001 | 53 | 90 | 16 | 16 |
| Cymru 2000/2001 | 62 | 93 | 18 | 18 |

**Nifer o disgyblion 17 oed a gofrestrwyd ar gyfer llai na 2 arholiad Safon Uwch neu Uwch Atodol cyfatebol 4**

| | Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrwyd ar gyfer llai na 2 arholiad Safon Uwch neu Uwch Atodol cyfatebol a enillodd sgôr bwyntiau o | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 0 i 4 | 5 i 9 | 10 i 15 | sgôr bwyntiau gyfartalog pob disbybl |
| Ysgol 2000/2001 | 75 | 25 | 0 | 4 |
| Ardal AALI 2000/2001 | 64 | 36 | 0 | 3 |
| Cymru 2000/2001 | 62 | 25 | 5 | 3 |

**Pob disgyblion 17 oed a gofrestrwyd am arholiadau TAG Safon Uwch neu Uwch Atodol cyfatebol**

| | Sgôr gyfartalog pob pwnc |
|---|---|
| Ysgol 2000/2001 | 5.3 |
| Ardal AALI 2000/2001 | 5.6 |
| Cymru 2000/2001 | 6 |

(1) Lle na ddyfarnwyd unrhyw GNVQ Uwch, seilir y canlyniadau ar gyraeddiadau Safon Uwch Atodol yn unig.

## D. Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd 17 o arolygwyr gyfanswm o 50 diwrnod arolygu yn yr ysgol ac arsyllwyd 213 o wersi neu rannau o wersi. Yn ogystal, arsyllwyd trawsdoriad o gyfnodau cofrestru, gwasanaethau boreol, cyfarfodydd adran a gweithgareddau allgyrsiol. Trefnwyd cyfweliadau gydag aelodau'r TRhU, penaethiaid adran a thiwtoriaid ynghyd ag aelodau o'r staff, gan gynnwys staff atodol sydd â chyfrifoldebau penodol.

Archwiliwyd trawsdoriad o waith disgyblion galluog, canolig ac is eu gallu o B7 i B13. Yn ogystal, gwelwyd enghreifftiau ychwanegol o waith disgyblion wrth ymweld â dosbarthiadau, gweithdai a

labordai. Trafodwyd eu gwaith yn gyson gyda'r disgyblion a chynhaliwyd cyfweliadau ffurfiol gyda disgyblion a ddewiswyd i gynrychioli'r gwahanol flynyddoedd.

Dadansoddwyd yr holl ddogfennaeth a gyflwynwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad. Trefnwyd cyfarfodydd cyn arolygiad gyda TRhU yr ysgol, gyda'r staff, y corff llywodraethol a'r rhieni. Mynychodd 29 y cyfarfod rhieni a dychwelwyd 52 o holiaduron rhieni, ynghyd â 5 lythyr neu sylwadau gan rieni.

## E. Cyfansoddiad a Chyfrifoldebau'r Tîm Arolygu

| ENW | RÔL | Adrannau'r adroddiad | PYNCIAU (adran 7) |
|---|---|---|---|
| Gareth W. Roberts | Arolygydd Cofrestredig | 1, 2, 3.1, 3.2, 6.2, 8.2, Atodiad | Technoleg Gwybodaeth, Ieithoedd Modern, Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| Griff Ch. Morris | Arolygydd Lleyg | 4.2, 4.3, 5.7, 6.3 | |
| Gareth Davies Jones | Tîm Craidd | 5.4 | Cymraeg, Cymraeg ail iaith Drama |
| Alwyn Evans | Tîm Craidd | 5.3, 5.6 | Saesneg, Cyfryngau |
| Heddwyn Evans | Tîm Craidd | 4.1, 5.5, 6.3 | Addysg grefyddol, |
| Margaret Robertson | Tîm Craidd | 5.2, 8.1 | Gwyddoniaeth |
| Richard Owen | Tîm Craidd | 5.1, 6.1 | Mathemateg |
| Gwilym Williams | | | Addysg Gorfforol |
| Alun Morgan | | | Hanes, Gwleidyddiaeth |
| Margaret E. Rowlands | | | Daearyddiaeth |
| Graham Edwards | | | Celf, Amaethyddiaeth, Adeiladu |
| Alan W. Jones | | | Cerdd |
| Beryl Portlock | | | Dylunio a Thechnoleg |
| Gerran Thomas | | | Ffiseg-Cyfrannu at wyddoniaeth, |
| Martin Davies | | | Astudiaethau Busnes |
| Dewi Williams | | | Technoleg Gwybodaeth UG |
| Glyn Jones | | | Cemeg-Cyfrannu at wyddoniaeth |

***Dymuna'r arolygwyr fynegi eu diolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad parod yn ystod yr arolygiad.***